

Rhagair

Mewn byd sydd yn newid yn gyflym, mae bygythiadau byd-eang bygythiol a chyfleoedd arloesol, cyffrous, sydd yn cael effaith sylweddol ar iechyd y cyhoedd. Yn yr hinsawdd byd-eang cymhleth hwn, rydym yn cydnabod na ellir diogelu, gwella a hybu iechyd a llesiant ar gyfer pobl Cymru yn ynysig. Mae angen partneriaethau rhyngwladol cryf, cydweithredu byd-eang a gweithio mewn cydweithrediaeth.

Mae cynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn hanfodol i lesiant y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol a bydd yn ein galluogi i gael mwy o degwch, diogelwch a heddwch. Mae Cymru mewn sefyllfa unigryw gyda chyd-destun deddfwriaethol a pholisi sydd yn galluogi, yn cynnwys 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015', sydd yn arloesol. Mae hyn wedi creu cyfle i ddatblygu cydweithrediadau gweithredol ac effeithiol ar draws sectorau, disgyblaethau a ffiniau fydd o fudd i bobl Cymru ac i'n planed.

Mae datblygiad Strategaeth Iechyd Ryngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ein galluogi i adlewyrchu ar ein heriau a'n hasedau sefydliadol, ein rôl fyd-eang a'n dyheadau ar gyfer y dyfodol. Rydym wedi blaenoriaethu meysydd sydd wedi dangos potensial i fod o'r budd mwyaf i bobl Cymru ac effeithio'n gadarnhaol ar y rheiny sydd yn byw y tu hwnt i'n ffiniau. Bydd hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu a gweithredu strategaeth hirdymor Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ogystal â'n Cynllun Tymor Canolig Integredig.

Edrychwn ymlaen at weithredu'r strategaeth hon dros y deng mlynedd nesaf a dod yn asiantaeth iechyd y cyhoedd sy'n gyfrifol yn fyd-eang, yn flaenllaw yn y byd ac sy'n ysbrydoli. Trwy gael ymagwedd hirdymor sy'n canolbwyntio ar ataliaeth, gallwn weithio i ehangu ein cydweithrediadau rhyngwladol, a gwella ein hymchwil a'n harloesi, creu Cymru iachach, fwy cyfartal, ffyniannus, gydnerth a chyfrifol yn fyd-eang, â diwylliant amrywiol, iaith Gymraeg sy'n ffynnu a chymunedau mwy cynhwysol.



Dr Tracey Cooper,
Prif Weithredwr,
Iechyd Cyhoeddus
Cymru



Yr Athro Syr Mansel Aylward,
Cadeirydd
Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cydnabyddiaeth

Datblygwyd y Strategaeth Iechyd Ryngwladol gan y Gyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru. Er i'r datblygiad gael ei arwain gan Mariana Dyakova, Lauren Ellis a Mark A. Bellis, rydym yn ddiolchgar i Malcolm Ward, Charlotte Grey a Mark Griffiths am eu cefnogaeth; i Bethan Patterson a Lloyd Evans am ychwanegu data; ac i Nina Williams, Quentin Sandifer, Dyfed Huws, Mari Morgan, a Gareth Morgan am ddarparu astudiaethau achos. Rydym yn diolch i aelodau Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Tîm Gweithredol roi arweiniad ac adborth hefyd trwy gydol y broses ddatblygu. Mae llawer o staff a rhanddeiliaid allanol eraill wedi cyfrannu at ymgynghoriad a datblygiad y strategaeth (gweler Atodiad I, tabl 1.1). Rydym yn arbennig o ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am eu cyngor.

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	2
Cyflwyniad	4
Gweledigaeth	5
Rhesymeg	6
Edrych Ymlaen	17
Blaenoriaeth Strategol I: Cynyddu Dysgu Rhyngwladol Cymhwysol a Chefnogi Arloesi ar gyfer Iechyd y Cyhoedd	20
Blaenoriaeth Strategol II: Datblygu Pobl a Sefydliadau sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang	22
Blaenoriaeth Strategol III: Cryfhau Ymagwedd Iechyd Byd-eang Cymru	24
Gwneud Iddo Ddigwydd	26
Casgliad	30
Geirfa	31
Atodiadau	32
Atodiad I	32
Atodiad II	36
Atodiad III	40
Cyfeiriadau	41

Crynodeb Gweithredol

Mae Strategaeth Iechyd Ryngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi cyflenwi ein rôl genedlaethol, ein blaenoriaethau strategol a'n hamcanion llesiant yn llwyddiannus. Mae proses ymgynghori eang, a gefnogwyd gan adolygiad llenyddiaeth a mapio gwaith a chydweithrediadau rhyngwladol ar draws y sefydliad wedi ein galluogi i nodi tair blaenoriaeth strategol a chwe amcan strategol ar gyfer y deng mlynedd nesaf. Mae'r blaenoriaethau a'r amcanion yn rhyngddibynnol ac yn addas i atgyfnerthu a chreu mwy o effaith i gefnogi'r strategaeth ddeng mlynedd a'r cynllun strategol tair blynedd sefydliadol.

Blaenoriaethau Strategol

I. Cynyddu Dysgu Rhyngwladol Cymhwysol a Chefnogi Arloesi ar gyfer Iechyd y Cyhoedd

Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn ysbryd parch at ein gilydd a rhannu, gan fanteisio ar ddysgu, arloesi ac ymchwil ryngwladol, er mwyn cael y budd mwyaf ar gyfer polisi ac ymarfer iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

II. Datblygu Pobl a Sefydliadau sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang

Byddwn yn gweithio ar draws y GIG i ddatblygu gweithlu sy'n gyfrifol yn fyd-eang a chefnogi amgylchedd sefydliadol sydd yn galluogi ac yn allblyg.

III. Cryfhau Ymagwedd Iechyd Byd-eang Cymru

Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid a'n rhwydweithiau yn fyd-eang i gryfhau cyfraniad Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddiogelwch iechyd byd-eang a datblygu cynaliadwy.

Amcanion Strategol

1 Rhwydweithiau a Phartneriaethau

Cryfhau a datblygu rhwydweithiau rhyngwladol a phartneriaethau dwyochrog presennol a newydd

2 Newid ac Arloesi

Hwyluso rhannu, ymchwil, symud a chyfleu gwybodaeth i lywio newid cadarnhaol ac arloesi

3 Enw Da ac Amlygrwydd

Sefydlu enw da fel asiantaeth iechyd y cyhoedd flaenllaw a chynyddu ein hamlygrwydd cenedlaethol a sefydliadol

4 Llywodraethu a Chydlyniant

Sicrhau llywodraethu cadarn, tryloywder, cydlynw, alinio strategol a gwerth ychwanegol gweithgareddau rhyngwladol

5 Gallu a Chynaliadwyedd


Cefnogi gallu a datblygu galluogrwydd trwy hyfforddiant, cynyddu adnoddau, creu incwm a chyfleoedd masnachol

6 Diwylliant a'r Amgylchedd

Hybu diwylliant o ddinasyddion sydd yn gyfrifol yn fyd-eang, hwyluso ymagwedd allblyg sydd yn edrych ymlaen

Cyflenwir strategaeth iechyd ryngwladol trwy Gynllun Gweithredu, yn cynnwys monitro, gwerthuso ac adrodd, llywodraethu cadarn yn ogystal â llywodraethu cadarn a strwythurau a phrosesau atebolrwydd. Mae gweithredu'r strategaeth yn llwyddiannus yn dibynnu ar argaeledd gallu cynaliadwy ac adnoddau, creu incwm allanol, a chreu amgylchedd cefnogol sydd yn galluogi. Caiff gweithredoedd penodol o fewn pob maes blaenoriaeth eu diffinio i gefnogi ein cyfrifoldebau sefydliadol a rhai'r GIG, a bydd yn adlewyrchu cyd-destun ehangach Cymru, y Deyrnas Unedig (DU), Ewropeaidd a byd-eang.

Map Strategaeth Iechyd Ryngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru 2017-2027



Cyflwyniad

O Iechyd Byd-eang i Iechyd Planedol

Defnyddir y termau 'iechyd byd-eang' ac 'iechyd rhyngwladol' yn gydgyfnewidiol yn aml. Yn y ddogfen hon, rydym yn cyfeirio at **iechyd byd-eang** fel iechyd poblogaethau mewn cyd-destun byd-eang, wedi ei ddiffinio fel "y maes astudiaeth, ymchwil ac ymarfer sydd yn rhoi blaenoriaeth i wella iechyd a chyflawni tegwch mewn iechyd ar gyfer pob person yn fyd-eang", lle gall problemau fod uwchlaw ffiniau cenedlaethol a chael effaith fyd-eangⁱ. Mae **iechyd rhyngwladol** yn fwy cyffredinol yn cwmpasu materion sydd yn digwydd y tu hwnt i'ch gwlad eich hun, yn cynnwys cydweithredu ar draws ffiniau, ac fe'i defnyddir weithiau i gyfeirio at weithio gyda gwledydd datblygol ac ymdrechion cymorth tramorⁱⁱ.

Gan ddatblygu'r cysyniadau hyn, mae corff cynyddol o dystiolaeth yn dangos bod iechyd dynol yn agos gysylltiedig ag iechyd ein planed a'n hecosystem, sydd wedi arwain at y term '**Iechyd Planedol**'ⁱⁱⁱ. Yn yr un modd, nod yr '**Agenda Un Iechyd**' yw cael yr iechyd gorau i bobl, anifeiliaid a'r amgylchedd^{iv}.

Trwy gydol y strategaeth hon, rydym yn cydnabod ac yn adlewyrchu ar y cam byd-eang tuag at gyflawni 'Un Iechyd' ac 'Iechyd Planedol' yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy.

Strwythur y Ddogfen

Mae'r strategaeth hon wedi ei threfnu yn **bedair adran drosfwaol**:



1 'Ein Gweledigaeth'

Amlinellu ein dyheadau ar gyfer y dyfodol.



2 'Rhesymeg'

Amlygu'r egwyddorion sylfaenol a phwysigrwydd ymgysylltu rhyngwladol; datblygu ein hanes a'n hasedau unigryw; a dangos y potensial ar gyfer cynyddu ein heffaith fyd-eang.



3 'Edrych Ymlaen'


Cyflwyno ein blaenoriaethau strategol, amcanion; a'n hymagwedd at ddatblygu a gweithredu'r ddogfen hon. Mae'r adran hon hefyd yn amlinellu cyd-fynd yn strategol â chyd-destun rhyngwladol, Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.



4 'Gwneud Iddo Ddigwydd'

Amlinellu gweithredu'r strategaeth trwy ddatblygu Fframwaith Llywodraethu; Cynllun Gweithredu; a Chynllun Monitro, Adrodd a Gwerthuso, gan adlewyrchu ein gwaith gyda phartneriaid allweddol a rhanddeiliaid.

Mae **Atodiad I** yn rhoi manylion yr ymagwedd i ddatblygu'r strategaeth, gan amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd a'r broses ymgysylltu. Oherwydd cyfoeth y wybodaeth a ddarparwyd trwy'r ymarfer mapio, a asesodd rychwant ein partneriaethau a'n cydweithrediadau sefydliadol, rydym wedi creu dogfen atodol '**Iechyd Cyhoeddus Cymru: Ein Gwaith Maes Byd-eang**'. Ceir rhai enghreifftiau o'r gwaith hwn yn **Atodiad II**. Yn olaf, mae Atodiad III yn rhoi trosolwg o'r dogfennau strategol perthnasol, y cyfeirir atynt yn y strategaeth. Mae'r termau allweddol a ddefnyddir yn y ddogfen hon wedi eu rhestru yn yr **Eirfa**.



Ein Gweledigaeth

Ein gweledigaeth ryngwladol yw

Bod yn asiantaeth iechyd y cyhoedd sydd yn gyfrifol yn fyd-eang, yn flaenllaw yn y byd ac yn ysbrydoli gan greu Cymru iachach, hapusach a thecach

Ein cenhadaeth yw

Cynyddu effaith ein hymgysylltu a'n partneriaeth iechyd rhyngwladol a byd-eang er mwyn diogelu, gwella a hybu iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru a thu hwnt i'w ffiniau

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymdrechu i ddatblygu a chryfhau ei rôl ryngwladol, ac i sefydlu llwyfan i gysylltu rhwydweithiau cenedlaethol a rhyngwladol a'r berthynas sydd eisoes yn bodoli. Nod ein hymagwedd strategol yw:

- Cynyddu ein heffaith ar iechyd y cyhoedd yng Nghymru a thu hwnt, trwy greu mwy o wybodaeth a thystiolaeth, dehongli, cyfathrebu a gweithredu mewn polisi ac ymarfer
- Creu asiantaeth gydnabyddedig, gyflawn a dibynadwy, sydd yn diogelu ein cenedl ac eraill rhag bygythiadau ac argyfyngau iechyd byd-eang, gan gyfrannu at wella cydweithredu, cadernid a chyfrifoldeb ar y cyd, a chaniatáu creu synergedd a chanfod atebion
- Datblygu ymagwedd o esiampl tuag at weithredu, ysgogi a hybu datblygu cynaliadwy a'i egwyddorion, gan greu cymunedau a chymdeithas fwy amrywiol, cynhwysol, teg, iach, hapus a chydnerth yng Nghymru a thu hwnt i'w ffiniau
- Sefydlu ein rôl fel corff arbenigol blaenllaw, sydd yn ysgogi arloesi, ymchwil a chreu incwm, gan gyfrannu at gynyddu adnoddau a gwireddu cyfleoedd newydd
- Galluogi gweithlu iechyd y cyhoedd brwdfrydig, mwy medrus a gwybodus sy'n gyfrifol yn fyd-eang sydd yn cymryd rhan ystyrlon mewn rhwydweithiau rhyngwladol
- Creu sefydliad cyfrifol sydd yn galluogi, yn allblyg sy'n gyfrifol yn fyd-eang gyda phartneriaethau dwyochrog a gweithgaredd rhyngwladol eglur, sydd yn cyd-fynd â blaenoriaethau iechyd y cyhoedd byd-eang a chenedlaethol

Mae'r dyheadau hyn yn gofyn am gydweithredu gyda'n partneriaid cenedlaethol a rhyngwladol er mwyn i'n nodau a'n blaenoriaethau gyd-fynd, gan ddefnyddio ymagwedd gydlynus. Trwy gynyddu eglurder a gwella adnoddau, byddwn mewn sefyllfa well i ysgogi a llywio gweithredu, gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl Cymru a thu hwnt (ffigur 1).



Rhesymeg

“... Yr hyn y mae Cymru’n ei wneud heddiw, bydd y byd yn ei wneud yfory. Gweithredu, yn fwy na geiriau, yw gobaith y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau’r dyfodol.”

Nikil Seth, Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy, y Cenhedloedd Unedig, 2015

Pam Ymgysylltu’n Fyd-eang ar gyfer Iechyd, Llesiant a Thegwch?

Mae’r byd wedi mynd yn fwy rhyng-gysylltiedig, rhyngddibynnol a symudol. Mae globaleiddio yn cael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar iechyd a llesiant dynol ac ar ein planed. Mewn byd ‘heb ffiniau’, gall bygythiadau i iechyd lleol fynd yn fyd-eang, a gall argyfyngau byd-eang gael effaith yn lleol. Mae trais a gwrthdaro, adleoli poblogaethau a rhyfel, yn ogystal â phrinder adnoddau, yn effeithio ar bob gwlad, gan wthio cynaliadwyedd systemau i’r eithaf. Mae anghydbwysedd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd a digwyddiadau eithafol yn bygwth pawb; er mai’r bobl dlotaf a mwyaf difreintiedig sydd yn aml yn wynebu anghydraddoldebau sy’n gwaethygu o fewn a rhwng gwledydd^v.

Ar yr un pryd, mae gwyddoniaeth a thechnoleg yn datblygu’n gyflym, o fewn yr hyn a elwir yn ‘Bedwerydd Chwyldro Diwydiannol’^{vi}, gan gyflwyno heriau a chyfleoedd anhysbys. Mae hyn yn creu trawsnewid byd-eang ar raddfa, cwmpas a chymhlethdod digyffelyb, sydd yn gofyn am ymateb integredig a chynhwysfawr, yn cynnwys rhanddeiliaid ar draws y byd, o’r sectorau cyhoeddus a phreifat i academia a chymdeithas sifil.

Mae Adroddiad Peryglon Byd-eang 2017^{vii} yn amlinellu tirwedd o bum perygl rhyng-gysylltiedig i’r dyfodol sydd yn cyfateb â’r heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y mae cymunedau Cymru’n eu hwynebu, fel y diffinnir gan yr adroddiad ‘Cenhedlaeth 2050: Gwneud Penderfyniadau Gwell yn yr Hirdymor’^{viii} (tabl 1). Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd trwy ffyniant cenedlaethol, cadernid, iechyd gwell, tegwch a chydlyniant, cyfrifoldeb byd-eang a diwylliant ac iaith sy’n ffynnu, mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu deddfwriaeth datblygu cynaliadwy unigryw; ‘Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru)’^{ix} (WFGA) yn 2015 (tabl 1).


Caiff effaith globaleiddio ar iechyd ei amlygu yn y ffordd y mae clefydau trosglwyddadwy’n lledaenu’n gyflym, fel HIV/AIDs, pandemig y fflw, a’r achosion diweddar o glefyd feirws Ebola, y feirws cyntaf i gael ei ddatgan fel ‘bygythiad i heddwch a diogelwch rhyngwladol’^x. Mae achosion o epidemig sy’n dod i’r amlwg yn cyd-fynd â chyfraddau cynyddol ymwrthedd gwrthficrobaidd^{xi}, sydd yn herio systemau iechyd yn fyd-eang. Mae bron chwarter baich clefydau byd-eang^{xii} yn cael ei achosi gan ffactorau amgylcheddol y gellir eu haddasu, fel peryglon ffisegol, cemegol a biolegol^{xiii}. Mae effaith cyflyrau cronig yn enfawr, mae baich clefyd y galon, canser, salwch meddwl a gordewdra yn sylweddol; ac mae lefelau uchel ymddygiad niweidiol, fel smygu a chamddefnyddio alcohol yn fygythiadau sy’n cael eu cydnabod. Nid yw Cymru wedi osgoi’r tueddiadau hyn ac mae’n wynebu heriau parhaus i iechyd a llesiant y boblogaeth (ffigur 2).

Er bod iechyd y cyhoedd wedi cyflawni llawer yng Nghymru, mae’r boblogaeth yn byw’n hwy ac mae’n iachach yn gyffredinol, mae bylchau o ran tlodi ac anghydraddoldeb yn parhau, gyda chymaint ag 11 o flynyddoedd o wahaniaeth o ran hyd bywyd rhwng y rheiny sydd yn byw yng nghymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig Cymru^{xiv}. Mae gwireddu buddion ymgysylltu a gwaith iechyd rhyngwladol a byd-eang (ffigur 1) yn hanfodol i Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyflawni ei swyddogaeth^{xv}, gweledigaeth, cenhadaeth^{xvi} a’i amcanion llesiant^{xvii} yn ogystal â gweithredu Nod Llesiant o ‘Gymru sy’n Gyfrifol yn Fyd-eang’.

Tabl 1. Peryglon Byd-eang a Heriau Datblygu Cynaliadwy Cymru i'r Dyfodol, yr eir i'r afael â nhw gan Ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru

Peryglon Byd-eang	Heriau i Gymunedau Cymru	Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
1. Economi: Twf a Diwygio 2. Cymdeithas: Ailadeiladu Cymunedau 3. Technoleg: Rheoli Amhariad 4. Geowleidyddiaeth: Cryfhau Cydweithredu 5. Yr Amgylchedd: Cyflymu Gweithredu	1. Twf Economaidd a Chyflogaeth 2. Poblogaeth sy'n Heneiddio 3. Disgwyliad Oes 4. Addasu Hinsawdd 5. Diogelwch Ynni a Thlodi Tanwydd 6. Twf Poblogaeth 7. Angen am Dai 8. Gwasanaethau Ecosystem 9. Iechyd a Gofal Cymdeithasol 10. Tlodi ac Amddifadedd 11. Llythrennedd, Rhifedd a Sgiliau 12. Systemau Trafnidiaeth Cydnerth 13. Diogelwch Bwyd 14. Diogelwch Dŵr 15. Cymunedau Diogel 16. Diwylliant a Threftadaeth	1. Cymru Lewyrchus 2. Cymru Gydnerth 3. Cymru Iachach 4. Cymru sy'n fwy Cyfartal 5. Cymru o Gymunedau Cydlynus 6. Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu 7. Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

Ffigur 1. Buddion Gwaith Iechyd Rhyngwladol a Byd-eang



Trwy weithio gyda phartneriaid rhyngwladol, gallwn gynyddu ein cyfranogiad yn yr agenda diogelwch iechyd byd-eang, er mwyn diogelu ein poblogaeth ac eraill yn well, gweithio tuag at fyd sydd yn fwy diogel ac yn barod am fygythiadau fel ymwrthedd gwrthficrobaidd, clefydau milheintiol, ac epidemig, gan gyflawni biddiogiwlch a biddiogiwlch. Mae Atodiad II, blychau 2.1 i 2.4 yn amlygu astudiaethau achos gan Iechyd Cyhoeddus Cymru lle cymerwyd camau i fynd i'r afael â'r heriau hyn, yn ogystal â datblygu ein gweithlu trwy gael mynediad i arbenigedd a chynlluniau hyfforddiant. Mae datblygu proffesiynol a chyfranogiad mewn rhaglenni amlddisgyblaethol a gydnabyddir yn rhyngwladol yn ysgogi newid cadarnhaol i'n pobl a'n cymunedau.


Mae gweithio y tu hwnt i'n ffiniau a chael golwg byd-eang yn gwneud ein sefydliad yn agored i gyfleoedd newydd, fel y rheiny sy'n cael eu cynnig gan **Agenda'r Cenhedloedd Unedig 2030^{xviii} a'i 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDG)** (ffigur 3). Mae'r SDG yn cynrychioli carreg filltir ar gyfer iechyd

Ffigur 2


Cymharu Cymru’n Rhyngwladol

Noder: Gofalwch beidio defnyddio’r data yma i wneud cymariaethau uniongyrchol rhwng gwledydd a chyfeirwch at y blwch ‘Esbonio Data Ystadegol’ am fwy o wybodaeth.


SWEDEN




IWERDDON




CYMRU



SLOFENIA



SELAND NEWYDD



Esboniad o’r data ystadegol (am ddiffiniadau o’r Dangosyddion, gweler yr eirfa)

1. Amcangyfrif o Faint y Boblogaeth: Data Sweden, Slofenia, Seland Newydd, Iwerddon, Cymru – 2011 i 2036
2. Disgwyliad Oes (blynyddoedd): Data Sweden, Slofenia, Seland Newydd, Iwerddon – 2015; data Cymru – 2010 – 2014
3. Disgwyliad Oes lach ar Enedigaeth (%): data Sweden, Slofenia, Seland Newydd, Iwerddon – 2015; Cymru 2010 – 2014

Cyfeiriadau: Arolwg Iechyd Cymru, WIMD 2014 ac Ystadegau ar gyfer Cymru (Llywodraeth Cymru); amcangyfrifon poblogaeth canol blywyddyn; Rhagamcanion Poblogaeth a Marwolaethau Iechyd y Cyhoedd (Swyddfa Ystadegau Gwladol); Sefydliad Iechyd y Byd; y Comisiwn Ewropeaidd; Ystadegau Sweden; Ystadegau Seland Newydd; Gweinyddiaeth Iechyd Seland Newydd; EuroStat; Banc y Byd; Ystadegau’r CU a Swyddfa Ystadegau Ganolog (Iwerddon)

dynol, planedol ac un iechyd, sydd yn gofyn i bob gwlad fynd i'r afael â chynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Caiff Iechyd (Nod 3) ei gydnabod fel canlyniad, anghenraid hanfodol i, a galluogwr datblygu cynaliadwy a thwrf economaidd cynhwysol. Mae gan yr SDG hefyd ffocws cadarn ar leihau anghydraddoldebau (Nod 10), cyflawni tegwch rhwng y ddau ryw (Nod 5) a dileu tlodi (Nod 1).

Mae'r ymagwedd newydd hon yn cadarnhau egwyddorion **Siarter Ottawa ar gyfer Hybu Iechyd**^{xix} ac mae'n cryfhau'r ymrwymiad i iechyd fel cysyniad cadarnhaol, wedi ei ddiffinio gan ffactorau llawer ehangach na'r sector gofal iechyd, ac yn gofyn am gynnwys a chyfranogiad y cyhoedd. Mae hwn yn ymrwymiad i gyflawni heddwch, lloches, addysg, bwyd, incwm, ecosystem sefydlog, adnoddau cynaliadwy, cyfiawnder cymdeithasol a thegwch i bawb. Mae Agenda 2030 hefyd yn datblygu **Strategaeth a Fframwaith Polisi 202 Iechyd Ewropeaidd Sefydliad Iechyd y Byd (WHO)**^{xx}, sydd yn eirioli dros weithredu ar draws llywodraeth a chymdeithas i "wella iechyd a llesiant poblogaethau yn sylweddol, lleihau anghydraddoldebau iechyd, cryfhau iechyd y cyhoedd a sicrhau bod systemau iechyd yn canolbwyntio ar bobl, yn gyffredinol, yn deg, yn gynaliadwy ac o ansawdd uchel". Cyflwynir heriau a rhagolygon newydd gan y DU sydd yn gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE), sydd yn cael effaith anhysbys ar iechyd y cyhoedd ac ar gynaliadwyedd.

Ffigur 3. Iechyd yn Ganolog i Agenda 2030 y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Datblygu Cynaliadwy



Cymru: Cenedl Fach â Chalon Fawr

**“Mae gan bobl yng Nghymru galonnau mawr ...
mewn gwlad fach.”**

Archesgob Desmond Tutu, Enillydd Gwobr Heddwch Nobel 1984




Datblygu ein hanes Cyfoethog a’n Hasedau Unigryw

Mae Cymru yn genedl fach, ond mae bob amser wedi bod yn allblyg ac mae ganddi hanes hir a chyfoethog o gefnogi iechyd a datblygiad byd-eang (ffigur 5). Mor bell yn ôl â 1985, sefydlwyd **Cyswllt Iechyd Dolen Cymru**^{xxi} rhwng Cymru a Lesotho, gan feithrin partneriaethau oedd yn newid bywydau rhwng cymunedau, ysgolion, sefydliadau iechyd ac unigolion. Cafodd **Rhaglen ‘Cymru o Blaid Affrica’ Llywodraeth Cymru** ei lansio yn 2006, ac mae wedi defnyddio ymagwedd holistaidd tuag at waith datblygu, gan arddangos effaith ddiriaethol a chanlyniadau lluosog sydd wedi cael eu cyfoethogi gan ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Mae llawer o weithwyr iechyd proffesiynol a gweithwyr proffesiynol sy’n gysylltiedig ag iechyd ar draws GIG Cymru wedi cymryd rhan yn y rhaglen, gan gael profiad mewn gwledydd incwm is a chanolig. Mae staff Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cymryd rhan mewn gwaith gwirfoddoli ac wedi cefnogi cyfranogiad mewn llawer o gysylltiadau iechyd unigol, gyda chymorth **Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru o Blaid Affrica**^{xxiii} a **Hub Cymru Africa**^{xxiv}.

Fel cenedl ddatganoledig, mae Cymru’n sicrhau cydlynid gyda materion tramor, deddfwriaeth datblygu rhyngwladol a pholisïau’r DU; tra’n rhoi buddion i boblogaeth Cymru ar yr un pryd a gweithio gydag ysbryd o barch ar y ddwy ochr, dysgu a chefnogaeth gyda’i phartneriad.


Mae Cymru wedi dangos ymrwymiad hirdymor i ddatblygu cynaliadwy, yn benodol trwy ddyletswydd cyfansoddiadol ym 1998; y **Genedl Masnach Deg** gyntaf yn y byd yn 2008; ac, yn fwy diweddar, cymryd yr awenau yn mabwysiadu deddfwriaeth datblygu cynhwysfawr arloesol, **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (WFGA)**. Cafodd y WFGA ei ddatblygu trwy Sgwrs Genedlaethol **‘Y Gymru a Garem’** yn cynnwys bron 70,000 o bobl ledled Cymru. Nododd y sgwrs genedlaethol mai ‘newid hinsawdd’ yw’r mater unigol pwysicaf i bobl Cymru^{xxv} (ffigur 4).

Ffigur 4. Sgwrs Genedlaethol ‘Y Gymru a Garem’: Ymateb Arolwg y Cyhoedd



Ffigur 5. Llinell Amser Cerrig Milltir Iechyd Rhyngwladol

Noder: ● = Iechyd Cyhoeddus Cymru ● = Cymru ● = Rhyngwladol



Mae ymrwymiad GIG Cymru i ymgysylltu iechyd rhyngwladol wedi cael ei gryfhau dros y blynyddoedd diwethaf trwy ddogfen Llywodraeth Cymru, **'Iechyd yng Nghymru a Thu hwnt i'w Ffiniau: Fframwaith ar gyfer Cysylltu'n Rhyngwladol ym Maes Iechyd'**^{xxvi}, a gyhoeddwyd yn 2012. Nododd y fframwaith **4 maes ar gyfer gweithredu fel blaenoriaeth** ar gyfer gweithwyr iechyd Cymru:

1. **Gweithwyr Iechyd Cymru fel Dinasyddion Byd-eang**
2. **Cryfhau Ein Cysylltiadau**
3. **Cynyddu Amlygrwydd GIG Cymru a Chymuned Iechyd Cymru**
4. **Meincnodi a Chymhariaeth**

Sefydlodd y Fframwaith **gorff Cymru gyfan unigryw, Canolfan Ryngwladol Cydlynw Iechyd (IHCC)**, o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gwaith yr IHCC yw cefnogi a gwella ymgysylltu rhyngwladol ar draws y GIG a hwyluso gallu a datblygu galluogrwydd (blwch 1). Mae eisoes wedi cyflawni nifer o fuddion i'r GIG a dinasyddion Cymru, fel datblygu'r **Siarter Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru**^{xxvii} (y Siarter) (blwch 2). Nodir cyflawniadau eraill yn Adroddiad Cynydd IHCC^{xxviii}.

Blwch 1. Rôl yr IHCC

Mae'r IHCC yn ganolbwynt i weithwyr Iechyd Proffesiynol yn y DU rannu gwybodaeth, cyfnewid gwybodaeth, cydweithredu a rhwydweithio gyda phartneriaid y DU, Ewropeaidd a byd-eang. Mae'r IHCC yn hyrwyddo, yn hwyluso ac yn cefnogi cyfleoedd ar gyfer cydweithredu rhyngwladol, datblygu partneriaethau a chreu incwm er mwyn cynyddu enillion posibl i Gymru a lleihau dyblygu ymdrechion ac adnoddau. Mae gan yr IHCC nifer o bartneriaid strategol er mwyn cyflawni ei nodau, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a'r trydydd sector. Mae'r cydweithrediad hwn ar draws sectorau wedi arwain at gyhoeddiadau a digwyddiadau amrywiol, fel dau Gatalog Cyllid Ewropeaidd; dosbarth meistr ar 'Cyllid a Chydweithrediad Ewropeaidd ar gyfer Iechyd a Llesiant yng Nghymru: Pontio'r Bwlch rhwng Cyllid Ewropeaidd ac Iechyd; a chyfres o weithdai cyllid i wella gallu a datblygu galluogrwydd ar draws y byrddau Iechyd a'r ymddiriedolaethau.



Ymweliad Astudio Cymru 'Ymagweddau Datblygu Cynaliadwy yn ymwneud ag Iechyd a Thegwch'

Blwch 2. Y Siarter Partneriaethau Iechyd Ryngwladol yng Nghymru: Sicrhau Gwerthoedd ac Egwyddorion Cyffredin ar gyfer Gwaith Rhyngwladol ar draws System Iechyd Cymru

Ymrwymodd pob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth i weithredu'r Siarter yn 2014, gan ymrwymo i wella cyfrifoldeb sefydliadol, gweithio mewn partneriaeth ar y ddwy ochr, arfer da a llywodraethu cadarn yn eu partneriaethau iechyd rhyngwladol. Mae'r IHCC wedi bod yn arwain ac yn cefnogi'r broses o weithredu'r Siarter trwy gynnal asesiad meincnodi, datblygu fframwaith a chydlynu gweithgareddau trwy Grŵp Gweithredu'r Siarter. Mae'r addewid unigryw hwn wedi arwain at sylw rhyngwladol ar draws y DU ac Ewrop.

Egwyddorion Sylfaenol y Siarter

01

Cyfrifoldebau Sefydliadol (OR)

Mae ymgysylltu sefydliadol cryf ac ymrwymiad yn hanfodol. Gallai hyn gynnwys cefnogaeth am absenoldeb arbennig, darparu adnoddau i gefnogi datblygiad partneriaethau iechyd a phrosesau sefydliadol gan adrodd ar lefel weithredol ar Bartneriaethau Iechyd Rhyngwladol.

02

Gwaith Partneriaeth Dwyochrog (RW)

Mae'n hanfodol cael perthynas gydweithredol rhwng dau barti neu fwy yn seiliedig ar ymddiriedolaeth, parch a dealltwriaeth o gyflawni nodau penodol er budd y ddwy ochr.

03

Arfer Da (GP)

Mae dull yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n chwilio am ganlyniadau cadarnhaol y dylid eu dathlu, a diwylliant agored sy'n barod i ddysgu pan fydd pethau'n mynd o'i le yn hanfodol.

04

Llywodraethu Cadarn (SG)

Mae nodau, amcanion a meysydd cyfrifoldeb wedi eu cytuno'n glir ar gyfer yr holl bartneriaid sy'n gysylltiedig â'r partneriaethau yn hanfodol.



Yr Athro Syr Mansel Aylward yn llofnodi'r Siarter ar ran Iechyd Cyhoeddus Cymru

Iechyd Cyhoeddus Cymru: Ffocws Cenedlaethol, Yn Gyfrifol yn Fyd-eang

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gwneud cyfraniad penodol ac amrywiol i'r agenda iechyd byd-eang, gan ddatblygu hanes cyfoethog Cymru, cydweithrediadau pellgyrhaeddol (ffigur 6) ac arbenigedd a gydnabyddir yn rhyngwladol mewn meysydd iechyd y cyhoedd amrywiol. Mae dros 60 o rwydweithiau a phartneriaethau rhyngwladol ar draws ein cyfarwyddiaethau sefydliadol. Tra'n sicrhau ac yn gwella ei rôl a'i gyfrifoldebau cenedlaethol, mae ein sefydliad wedi ymrwmo i ysgogi newid cadarnhaol a datblygu cynaliadwy yn fyd-eang, gan gyd-fynd a chefnogi cyd-destun deddfwriaethol a pholisi unigryw Cymru mewn cydweithrediad â'r GIG a rhanddeiliaid eraill (ffigur 10, tudalen 28).

Trwy aelodaeth gorfforaethol mewn rhwydweithiau byd-eang ac Ewropeaidd a chyfranogiad mewn ystod o gydweithrediadau, mae ystod o fuddion wedi cael eu gwireddu (tabl 4). Mae'r ystod lawn o'n partneriaethau a'n prosiectau rhyngwladol ar gael yn y ddogfen atodol **'Iechyd Cyhoeddus Cymru: Ein Gwaith Maes Allanol'** gyda rhai enghreifftiau wedi eu hamlygu yn nhabl 2 ac Atodiad II.





Tabl 2. Gwireddu Buddion Cydweithredu Rhyngwladol

Budd	Effaith Sefydliadol
Caffael a Rhannu Gwybodaeth, Sgiliau ac Arfer Da	Mae cydweithwyr o bob is-adran a thîm lleol wedi bod yn cymryd rhan mewn cydweithrediadau rhyngwladol, yn creu synergeddau. Mae enghreifftiau yn cynnwys Ymweliad Astudio Cymru yn 2016 ‘Ymagwedddau Datblygu Cynaliadwy i Iechyd a Thegwch’ , gyda chymorth Rhaglen yr UE ar gyfer Cyflogaeth ac Arloesi Cymdeithasol a Swyddfa Ranbarthol Ewrop WHO (WHO EURO). Enghraifft arall yw ymweliad astudio sydd yn canolbwyntio ar ‘Wasanaethau Lleihau Niwed ar gyfer Pobl sydd yn Chwistrellu Cyffuriau’ yn Denmarc (Atodiad II, Blwch 2.3).
Cyfrannu at Ddiogelwch Iechyd Byd-eang a Chenedlaethol ac Arwain trwy Esiampol	Yn ddiweddar, mae ‘Cynllun Braenaru ar gyfer Iechyd Byd-eang: Ymagwedddau Posibl yng Nghymru’^{xxix} wedi cael ei gydgrynhoi mewn cydweithrediad â Chymdeithas Ddysgedig Cymru ac Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Aberystwyth. Yn ogystal, mae Pecyn Cymorth Diogelu Iechyd wedi cael ei ddatblygu mewn cydweithrediaeth ag Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad (Atodiad I, Blwch 1.4). Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn safle hyfforddiant hirsefydlog ar gyfer Rhaglen Hyfforddiant Ymyrraeth Epidemiolegol Ewrop (EPIET) , sy’n cael ei hariannu a’i rhedeg gan Ganolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop (ECDC) yn Stockholm (Atodiad II, Blwch 2.2).
Meincnodi a Gwella Iechyd a Llesiant y Boblogaeth a Lleihau Anghydraddoldebau	Mae Uned Gwybodaeth ac Arolygiaeth Canser Cymru (WCISU) wedi gwella ei hallgymorth rhyngwladol. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd wedi cynyddu ei rôl yn y rhwydwaith Gweithgaredd Corfforol sy’n Gwella Iechyd (HEPA) Ewrop; yn Rhwydwaith Dinasoedd Iach WHO trwy waith cymunedol Dinas Iach Abertawe ; a Chydweithrediaeth Epidemioleg Ewropeaidd Cam-drin ac Esgeuluso Plant (Euro-CAN) ar ddiogelu (Atodiad II, blwch 2.4).
Effeithio ar Bolisi ac Ymarfer trwy Ymchwil a Chydweithredu Rhyngwladol	Mae enghreifftiau nodedig diweddar yn cynnwys yr ymchwil allweddol ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) ; prosiectau cymhwysol ar atal trais a throseddau; datblygu ffamwaith ar gyfer ymateb Iechyd y Cyhoedd i ddigwyddiadau diweithdra torfol; a datblygiad Canolfan Gydweithredu WHO ar ‘Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Datblygu Cynaliadwy i Iwio, cefnogi a hwyluso polisi ac ymarfer cynaliadwy yn Rhanbarth Ewrop’.
Cynyddu ein Heffaith, Amlygrwydd a Hyrwyddo Cyfrifoldeb Byd-eang	Er mwyn codi ymwybyddiaeth, cynyddu gwybodaeth, ysbrydoli ymgysylltu rhyngwladol a hwyluso rhwydweithio, mae cyfres o ddigwyddiadau wedi cael eu trefnu, fel y seminar Partneriaeth Masnachu a Buddsoddi Dros yr Iwerydd (TTIP) , 2015; cynhadledd Datblygu Cynaliadwy a Phartneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru , 2016; a’r gynhadledd Rhwydweithiau a Phartneriaethau: Cymru’n Cydweithredu dros Iechyd Byd-eang , 2017. Mae’r Isadran Iechyd Rhyngwladol hefyd wedi cyhoeddi cyfres o adnoddau i ddiweddarau eich staff ynghylch datblygiadau byd-eang ac Ewropeaidd a’u heffaith bosibl ar Iechyd yng Nghymru. Mae’r rhain yn cynnwys briff ar Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches: Goblygiadau Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Cymru a briff ar Refferendwm yr UE.

Ffigur 6

Cydweithrediadau a Phartneriaethau Rhyngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru





Edrych Ymlaen

Mae Strategaeth Iechyd Ryngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cael ei datblygu trwy broses ymgynghori estynedig a chynhwysol yn cynnwys rhanddeiliaid mewnol ac allanol, adolygiad llenyddiaeth strategol a'r defnydd o Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd (Atodiad I). Cafodd y strategaeth hefyd ei llywio gan fapio gweithgaredd rhyngwladol ar draws y sefydliad. Dangosodd y canfyddiadau bod gwaith rhyngwladol yn aml yn digwydd trwy bocedi o ragoriaeth, sydd yn dal yn dameidiog ac yn seiliedig yn bennaf ar gysylltiadau unigol, a ddatblygwyd trwy arbenigedd a gydnabyddir yn rhyngwladol, yn hytrach na chael ymagwedd strategol. Mae nifer o gydweithwyr wedi bod yn gysylltiedig â hyrwyddo a hwyluso ymchwil, prosiectau a digwyddiadau rhyngwladol, fodd bynnag mae rhannu ac effaith y dysgu a'r cydweithredu hwn yn dal yn gyfyngedig. Bydd gweithgaredd rhyngwladol cydgysylltiedig, cydlynus gyda ffocws yn ein galluogi i gyflawni nodau iechyd ar y cyd a nodi peryglon a chyfleoedd diogelwch byd-eang sydd yn dod i'r amlwg.

Rydym wedi nodi tri maes blaenoriaeth strategol a chwe amcan strategol:

Blaenoriaethau Strategol

I. Cynyddu dysgu rhyngwladol cymhwysol a chefnogi arloesi ar gyfer iechyd y cyhoedd

Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn ysbryd parch at ein gilydd a rhannu, gan fanteisio ar ddysgu, arloesi ac ymchwil ryngwladol, er mwyn cael y budd mwyaf ar gyfer polisi ac ymarfer iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

II. Datblygu pobl a sefydliadau sy'n gyfrifol yn fyd-eang

Byddwn yn gweithio ar draws y GIG i ddatblygu gweithlu sy'n gyfrifol yn fyd-eang a chefnogi amgylchedd sefydliadol sydd yn galluogi ac yn allblyg.

III. Cryfhau ymagwedd iechyd byd-eang Cymru

Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid a'n rhwydweithiau yn fyd-eang i gryfhau cyfraniad Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddiogelwch iechyd byd-eang a datblygu cynaliadwy.

Amcanion Strategol

1 Rhwydweithiau a Phartneriaethau

Cryfhau a datblygu rhwydweithiau rhyngwladol a phartneriaethau dwyochrog presennol a newydd

2 Newid ac Arloesi

Hwyluso rhannu, ymchwil, symud a chyfleu gwybodaeth i lywio newid cadarnhaol ac arloesi

3 Enw Da ac Amlygrwydd

Sefydlu enw da fel asiantaeth iechyd y cyhoedd flaenllaw a chynyddu ein hamlygrwydd cenedlaethol a sefydliadol

4 Llywodraethu a Chydlyniant

Sicrhau llywodraethu cadarn, tryloywder, cydlynw, alinio strategol a gwerth ychwanegol gweithgareddau rhyngwladol

5 Gallu a Chynaliadwyedd

Cefnogi gallu a datblygu galluoigrwydd trwy hyfforddiant, cynyddu adnoddau, creu incwm a chyfleoedd masnachol

6 Diwylliant a'r Amgylchedd

Hybu diwylliant o ddinasyddion sydd yn gyfrifol yn fyd-eang, hwyluso ymagwedd allblyg sydd yn edrych ymlaen


Mae ein hymagwedd strategol, ein dyheadau, ein blaenoriaethau a'n hamcanion wedi cael eu diffinio gan:

- Ein staff a'n partneriaid ar draws Cymru ac yn fyd-eang (trwy'r broses ymgynghori);
- Ein hanes, ein cyflawniadau a'n hasedau unigryw (trwy fapio); a'r
- Cyd-destun esblygol byd-eang, Ewropeaidd a'r DU (trwy'r adolygiad llenyddiaeth a'n hymgysylltu rhyngwladol parhaus).

Mae datblygu a gweithredu ein blaenoriaethau a'n hamcanion wedi dilyn yr **Egwyddor Datblygu Cynaliadwy** trwy'r **'Pum Ffordd o Weithio'** (tabl 3). Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â chyd-destun deddfwriaeth a pholisi Cymru, yn benodol gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'i saith nod Llesiant (tabl 1); a'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru a'i bedwar egwyddor sylfaenol (blwch 2). Mae'r strategaeth yn cefnogi swyddogaethau statudol, gwerthoedd, cyfrifoldebau ac amcanion llesiant, mae'n cyfrannu at ac yn ategu dogfennau strategol sefydliadol eraill, fel y Strategaeth Ymchwil a Datblygu, y Fframwaith Ansawdd ac Effaith a'r Strategaeth Symud Gwybodaeth (ffigur 7). Cyflwynir y synergeddau ar draws y cyd-destun byd-eang, cenedlaethol strategol sefydliadol ar gyfer pob maes blaenoriaeth ar dudalennau 22, 24 a 26 yn y drefn honno.

Ffigur 7. Ymgysylltu Rhyngwladol ac Ymchwil i Gefnogi Symud Gwybodaeth

Mae manteisio ar wybodaeth, profiad ac ymarfer rhyngwladol yn rhan annatod o'r Cylch Symud Gwybodaeth




Tabl 3. Defnyddio'r 'Pum Ffordd o Weithio' i Ddatblygu a Gweithredu'r Strategaeth

Pum Ffordd o Weithio	Datblygu a Gweithredu Strategaeth Ryngwladol
 Tymor hwy	Datblygu Mae'r strategaeth yn edrych ymlaen, edrych i'r dyfodol, gan ddilyn Agenda 2030 y DU ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a safbwynt hirdymor Cymru sydd wedi ei adlewyrchu yn yr adroddiad 'Y Gymru a Garem erbyn 2050'. Rydym wedi ystyried tueddiadau, heriau a chyfleoedd byd-eang a ddylai lunio iechyd y cyhoedd ar draws y byd ac yng Nghymru yn y 10-12 mlynedd nesaf. Gweithredu Bydd gweithredu ein strategaeth 10 mlynedd yn gofyn am gynllunio a gosod blaenoriaethau ac amcanion ar gyfer y tymor byr (3 blynedd), canolig (6 blynedd) a'r hirdymor (10 mlynedd).
 Ataliaeth	Datblygu Mae ataliaeth yn ganolog i iechyd y cyhoedd yn ogystal ag yn garreg gamu ar gyfer sicrhau diogelwch iechyd byd-eang a datblygu cynaliadwy. Ystyrir ataliaeth yn egwyddor sydd yn arwain ac yn darged wrth ddiffinio ei flaenoriaethau a'i amcanion strategol. Gweithredu Mae gwella ymagweddau ataliol wedi eu llywio'n rhyngwladol tuag at glefydau trosglwyddadwy ac anhrosglwyddadwy, anghydraddoldebau a gwasanaethau yn elfen allweddol o weithredu ein strategaeth. Bydd cydweithredu rhyngwladol, rhannu a defnyddio gwybodaeth iechyd fyd-eang a dysgu o brofiad ac arfer da yn cefnogi ein cyflenwi cenedlaethol.
 Integreiddio	Datblygu Ateir y strategaeth hon gan y nodau llesiant a'n IMTP, integreiddio gwybodaeth o ddogfennau strategol amrywiol; yn ogystal â phrofiad, safbwyntiau a syniadau gan ein staff a rhanddeiliaid allanol allweddol. Gweithredu Bydd ystyried sut y mae gwaith ac ymgysylltu rhyngwladol yn effeithio ar eraill, yng Nghymru a thu hwnt i'w ffiniau ac i'r gwrthwyneb yn allweddol i'r broses weithredu. Nod y strategaeth hon hefyd fydd adlewyrchu'r holl nodau llesiant i'w pwyntiau trawsbynciol, yn ogystal â chysylltu â'r SDG, Iechyd 2020 a'n blaenoriaethau a'n hamcanion sefydliadol
 Cydweithredu	Datblygu Mae'r strategaeth hon wedi cael ei datblygu gyda mewnbwn sefydliadol, lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn ogystal â thrwy ymdrech gydweithredol ar draws pob cyfarwyddiaeth ac is-adran. Gweithredu Mae cydweithredu yn greiddiol i'r strategaeth hon, yn datblygu ein rhwydweithiau, ein partneriaethau a'n prosiectau rhyngwladol hanesyddol, newydd a'r rhai sydd yn dod i'r amlwg. Mae'r rhan fwyaf o gydweithredu nid yn unig yn gydweithredu ar draws ffiniau ond hefyd ar draws disgyblaethau, sectorau a lefelau llywodraethu.
 Cyfranogiad	Datblygu Mae'r broses ddatblygu wedi bod yn hollgynhwysol gydag ymgynghoriad ar-lein agored/cyhoeddus, digwyddiadau ymgysylltu a gweithdai, a roddodd gyfleoedd ar gyfer cyfranogiad ar draws sectorau, sefydliadau ac ardaloedd daearyddol. Gweithredu Bydd datblygu Cynllun Gweithredu Strategaeth, strwythur llywodraethu a monitro a chymhwyso pellach yn seiliedig ar broses drafod a chytuno eang ar draws y sefydliad, yn ogystal â chynnwys rhanddeiliaid allanol a chymunedau lle y bo'n bosibl ac yn briodol.

Blaenoriaeth Strategol I: Cynyddu Dysgu Rhyngwladol Cymhwysol a Chefnogi Arloesi ar gyfer Iechyd y Cyhoedd

Cynrychiolir y synergeddau rhwng Strategaeth Iechyd Ryngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r cyd-destun strategol byd-eang, cenedlaethol a sefydliadol isod trwy amlygu mewn lliw y nodau/amcanion/swyddogaethau y mae'r strategaeth yn cyfrannu atynt, sef:

1. **Cyfraniad byd-eang i Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDG) 1,3,5,10, 11 a 12** Agenda 2030 y CU (gweler bob un o'r 17 SDG yn Atodiad III)
2. **Cyfraniad cenedlaethol i nodau llesiant 'Cymru lewyrchus', 'Cymru gydnerth', Cymru iachach', Cymru sydd yn fwy cyfartal' a 'Chymru â chymunedau cydlynus'.** Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (Atodiad III); yn ogystal ag **egwyddorion 'Gweithio mewn Partneriaeth sydd o fudd i'r Ddwyr Ochr' ac 'Arfer Da'** o'r Siarter (blwch 2, tudalen 13)
3. **Cyfraniad sefydliadol i** Swyddogaethau Statudol Iechyd Cyhoeddus Cymru; Amcanion Llesiant 2017 (tudalen ii); nodau'r Fframwaith Ansawdd ac Effaith; ac amcanion y Strategaeth Ymchwil a Datblygu (Atodiad III) fel y rhestrir isod.



Synergeddau ar draws y cyd-destun strategol byd-eang, cenedlaethol a sefydliadol

Swyddogaethau Statudol

- 1 Darparu a rheoli ystod o wasanaethau iechyd y cyhoedd, diogelu iechyd, gwella gofal iechyd, cynghori ar iechyd, amddiffyn plant a gwasanaethau labordy microbiolegol a gwasanaethau'n ymwneud â gwyliadwraeth, ataliaeth a rheolaeth clefydau trosglwyddadwy;
- 3 Casglu, dadansoddi a lledaenu gwybodaeth fel mater o drefn am iechyd pobl Cymru yn arbennig yn cynnwys achosion, marwolaethau a chyfraddau goroesi cancer; a mynychder anomaledau cynhenid; a
- 4 Darparu, rheoli, monitro, gwerthuso a gwneud ymchwil i sgrinio cyflyrau iechyd a sgrinio materion yn ymwneud ag iechyd

Amcanion Llesiant

- 1 Meithrin gallu a chefnogi newid y system, i ddiogelu a gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau
- 2 Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i'n plant yn cynnwys cyfleoedd i dyfu, chwarae a dysgu mewn amgylchedd iach a diogel
- 3 Cynorthwyo'r GIG i ddarparu gwasanaethau teg a chynaliadwy o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion dinasyddion yn ystod pob cam o'u bywyd
- 5 Dylanwadu ar bolisi, cynllunio a dylunio i greu cymunedau cynaliadwy, cydlynus, sy'n ffynnu yn ddiwylliannol, er mwyn mynd i'r afael â phenderfyniadau ehangach iechyd a thorri cylch tlodi ac anfantais
- 7 Cryfhau ein rôl yn ymwneud ag iechyd byd-eang a datblygu cynaliadwy, gan wireddu buddion ymgysylltu rhyngwladol

Nodau'r Fframwaith Ansawdd ac Effaith

- Trawsnewid y Diwylliant; Monitro Effaith; Codi Safonau
- Mesur Ansawdd ein Gwaith; Gweithio'n Gydweithredol

Strategaeth Ymchwil a Datblygu

- Hwyluso creu gwybodaeth newydd
- Cynyddu proffil ymchwil Iechyd Cyhoeddus Cymru trwy gyfathrebu'n eang gyda'n rhanddeiliaid a hyrwyddo troi ymchwil yn bolisi ac ymarfer iechyd y cyhoedd

Beth wnaeth ein staff a'n rhanddeiliaid ddweud wrthym?

"Mae'n bwysig ein bod yn dysgu oddi wrth y gorau, er mwyn i Iechyd Cyhoeddus Cymru rannu arbenigedd gyda gwledydd eraill, a rhannu ymatebion i fygythiadau byd-eang i iechyd sy'n dod i'r amlwg."

Dyfyniad o ymatebion yr ymgynghoriad

Nododd yr ymgynghoriad bod gweithio'n fyd-eang yn hanfodol i gynyddu hygyrdded iechyd Cyhoeddus Cymru. Trwy ddatblygu cysylltiadau rhyngwladol cryf, rhannu dysgu a chyflwyno arfer gorau byddwn yn gallu llywio polisiau a defnyddio ein harbenigedd unigryw i fynd i'r afael â heriau mewn mannau eraill. Nododd y broses ymgynghori hefyd angen i: sicrhau rhagoriaeth ym maes iechyd y cyhoedd a lledaenu cadarn; defnyddio ymchwil, polisiau ac arferion da rhyngwladol; uwchraddio ein hasedau; a datblygu arloesi a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Ein nodau:

- Cyflawni'r effaith fwyaf posibl ar bolisiau ac arferion iechyd y cyhoedd er mwyn bod o fudd yn y pen draw i iechyd a llesiant y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol, lleihau anghydraddoldebau a hybu cymunedau cynhwysol a chadarn yng Nghymru a thu hwnt.
- Bod yn ganolfan ragoriaeth o safon fyd-eang, yn hyrwyddo ymchwil ac arloesi iechyd y cyhoedd; eirioli dros iechyd ym mhob polisi yng Nghymru a thu hwnt i'w ffiniau.

Byddwn yn cyflawni hyn trwy:

- ✓ **Rwydweithiau a Phartneriaethau:** Cryfhau a datblygu rhwydweithiau rhyngwladol presennol a newydd a phartneriaethau o fudd i'r ddwy ochr;
- ✓ **Newid ac Arloesi:** Hwyluso rhannu, ymchwil, gwybodaeth, symud a chyfathrebu i hybu newid cadarnhaol ac arloesi;
- ✓ **Enw Da ac Amlygrwydd:** Sefydlu enw da fel asiantaeth iechyd y cyhoedd flaenllaw yn y byd a chynyddu ein hamlygrwydd cenedlaethol a sefydliadol; a
- ✓ **Gallu a Chynaliadwyedd:** Cefnogi gallu a datblygu galluogrwydd trwy hyfforddiant, cynyddu adnoddau, creu incwm a chyfleoedd masnachol.

Sut olwg sydd ar y llwyddiant?

Yn y tymor byr byddwn:


- Yn cyflawni ac yn cynnal statws Canolfan Gydweithredu WHO;
- Yn derbyn Adolygiad Cymheiriaid rhagorol IANPHI ac yn cydnabod ac yn dysgu o'r argymhellion a wnaed; ac
- Yn datblygu ymagweddau ac offer arloesol i symud, troi a chyfathrebu gwybodaeth a thystiolaeth yn bolisi ac ymarfer, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Bydd y canlyniadau tymor canolig a hirdymor yn cael eu diffinio yn y Cynllun Gweithredu Strategaeth a'r Cynlluniau Gweithredu pellach.

Blaenoriaeth Strategol II: Datblygu Pobl a Sefydliadau sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang

Cynrychiolir y synergeddau rhwng Strategaeth Iechyd Ryngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r cyd-destun strategol byd-eang, cenedlaethol a sefydliadol isod trwy amlygu mewn lliw y nodau/amcanion/swyddogaethau y mae'r strategaeth yn cyfrannu atynt, sef:

1. **Cyfraniad byd-eang i Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDG) 3, 4, 5, 6, 7, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15 ac 16** o Agenda 2030 y CU (gweler bob un o'r 17 SDG yn Atodiad III)
2. **Cyfraniad cenedlaethol i nodau llesiant 'Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang', 'Cymru gydnerth', 'Cymru iachach', Cymru sydd yn fwy cyfartal' a 'Chymru â diwylliant bywiog...'**, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (Atodiad III); yn ogystal ag **egwyddorion 'Cyfrifoldeb Sefydliadol' a 'Llywodraethu Cadarn'** o'r Siarter (blwch 2, tudalen 13)
3. **Cyfraniad sefydliadol at Swyddogaethau Statudol Iechyd Cyhoeddus Cymru**; Amcanion Llesiant 2017 (tudalen ii); nodau'r Fframwaith Ansawdd ac Effaith; ac amcanion y Strategaeth Ymchwil a Datblygu (Atodiad III) fel y rhestrir isod.



Synergeddau ar draws y cyd-destun strategol byd-eang, cenedlaethol a sefydliadol

Swyddogaethau Statudol

- 1 Darparu a rheoli ystod o wasanaethau iechyd y cyhoedd, diogelu iechyd, gwella gofal iechyd, cyngori ar iechyd, amddiffyn plant a gwasanaethau labordy microbiolegol a gwasanaethau'n ymwneud â gwyliadwraeth, ataliaeth a rheolaeth clefydau trosglwyddadwy; a
- 2 Datblygu a chynnal trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth am faterion yn ymwneud â diogelu a gwella iechyd yng Nghymru ar gyfer y cyhoedd; gwneud a chomisiynu ymchwil i faterion o'r fath a chyfrannu at ddarparu a datblygu hyfforddiant mewn materion o'r fath;

Amcanion Llesiant

- 1 Meithrin gallu a chefnogi newid y system, i ddiogelu a gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau
- 2 Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i'n plant yn cynnwys cyfleoedd i dyfu, chwarae a dysgu mewn amgylchedd iach a diogel
- 3 Cynorthwyo'r GIG i ddarparu gwasanaethau teg a chynaliadwy o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion dinasyddion yn ystod pob cam o'u bywyd
- 6 Cynyddu potensial ein hadnoddau naturiol a diwylliannol er mwyn hybu iechyd a llesiant corfforol a meddyliol a chyfrannu at Gymru carbon isel, amgylcheddol gydnerth

Nodau'r Fframwaith Ansawdd ac Effaith

- Trawsnewid y Diwylliant, Cryfhau'r Gweithlu
- Monitro Effaith; Mesur Ansawdd ein Gwaith

Strategaeth Ymchwil a Datblygu

- Datblygu a chefnogi gallu ymchwil Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cryfhau ymgysylltu a chydweithrediaidau â'r cyhoedd

Beth wnaeth ein staff a'n rhanddeiliaid ddweud wrthym?

"Dylai'r Strategaeth Iechyd Ryngwladol annog cysylltu ar draws y sefydliad, annog gwaith ar draws cyfarwyddiaethau, yn benodol i sicrhau bod 'traws-beillio' yn digwydd er mwyn i fwy o waith allu cael ei gydgyssylltu, ac annog gwaith rhyngwladol i ddigwydd."

Dyfyniad o ymatebion yr ymgynghoriad

Nododd yr ymgynghoriad bod angen annog ymagwedd a diwylliant allblyg ar draws y sefydliad a'i sefydlu yn ei strwythur llywodraethu. Ni ddylai gwaith rhyngwladol fod yn faich ychwanegol, ond yn hytrach creu cyfleoedd a hwyluso'r gwaith o wella ansawdd. Nododd yr ymatebwyr yr angen am: ymagwedd gyson, gydlynus a chefnogol wedi ei harwain gan y sefydliad; canolbwynt ar gyfer gwaith rhyngwladol ar draws y sefydliad; sicrwydd ansawdd trwy dryloywder, atebolrwydd ac adrodd; hunaniaeth a chyfrifoldeb byd-eang cryf; newid diwylliannol; adnoddau digonol; cynnydd mewn hyfywedd a hybu gwerth gwaith iechyd rhyngwladol; a chydabod arbenigedd ein staff.

Ein nodau:

- Creu cymuned frwdfrydig, gysylltiedig, wybodus a medrus o weithwyr iechyd y cyhoedd proffesiynol ar draws Cymru, sydd yn cymryd rhan weithredol mewn rhwydweithiau rhyngwladol ac sydd â hunaniaeth a chyfrifoldeb byd-eang cryf.
- Creu sefydliad allblyg, sydd yn galluogi ac yn gyfrifol yn fyd-eang sydd yn 'cerdded y daith', gan arwain trwy esiampl; gyda phartneriaethau cryf lle mae'r ddwy ochr yn elwa; gweithgaredd rhyngwladol cydlynus; llywodraethu cadarn; a galluoedd ac adnoddau cynaliadwy.

Byddwn yn cyflawni hyn trwy:

- ✓ **Rwydweithiau a Phartneriaethau:** Cryfhau a datblygu rhwydweithiau rhyngwladol presennol a newydd a phartneriaethau lle mae'r ddwy ochr yn elwa;
- ✓ **Newid ac Arloesi:** Hwyluso rhannu, ymchwil, symud gwybodaeth a chyfathrebu i ysgogi newid cadarnhaol ac arloesi;
- ✓ **Llywodraethu a Chydlyniant:** Sicrhau llywodraethu cadarn, tryloywder, cydlyniant, cydweithredu, alinio strategol a gwerth ychwanegol gweithgareddau rhyngwladol;
- ✓ **Gallu a Chynaliadwyedd:** Cefnogi datblygu gallu a galluogrwydd trwy hyfforddiant, cynyddu adnoddau, creu incwm a chyfleoedd masnachol; a
- ✓ **Diwylliant a'r Amgylchedd:** Hyrwyddo diwylliant o ddinasyddion sy'n gyfrifol yn fyd-eang, gan hwyluso ymagwedd allblyg, sydd yn edrych ymlaen.

Sut olwg sydd ar lwyddiant?

Yn y tymor byr byddwn:


- Yn sefydlu fframwaith llywodraethu strategol, monitro a gwerthuso gyda strwythurau a phrosesau atebolrwydd; ac yn datblygu cynllun gweithredu;
- Yn datblygu ac yn hyrwyddo adnodd hyfforddiant Dinasyddiaeth Fyd-eang ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol; ac
- Yn parhau gyda chymorth IHCC i gryfhau galluogrwydd ar draws Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau Cymru

Caiff y canlyniadau tymor canolig a hirdymor eu diffinio yn y Cynllun Gweithredu Strategaeth a'r Cynlluniau Gweithredu pellach.

Blaenoriaeth Strategol III: Cryfhau Ymagwedd Iechyd Byd-eang Cymru

Cynrychiolir y synergeddau rhwng Strategaeth Iechyd Ryngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r cyd-destun strategol byd-eang, cenedlaethol a sefydliadol isod trwy amlygu mewn lliw y nodau/amcanion/swyddogaethau y mae'r strategaeth yn cyfrannu atynt, sef:

1. **Cyfraniad byd-eang i Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDG) 1, 2, 3, 5, 8, 10, 13, 16 a 17** o Agenda 2030 y CU (gweler bob un o'r 17 SDG yn Atodiad III)
2. **Cyfraniad cenedlaethol i nodau llesiant 'Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang', 'Cymru gydnerth', 'Cymru iachach' a 'Chymru sy'n fwy cyfartal', Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (Atodiad III); yn ogystal ag egwyddorion 'Gweithio mewn Partneriaeth ar y Ddwyr Ochr' ac 'Arfer Da' o'r Siarter (blwch 2, tudalen 13)**
3. **Cyfraniad sefydliadol i Swyddogaethau Statudol Iechyd Cyhoeddus Cymru; Amcanion Llesiant 2017 (tudalen ii); nodau'r Fframwaith Ansawdd ac Effaith; ac amcanion y Strategaeth Ymchwil a Datblygu (atodiad III) a restrir isod.**



Synergeddau ar draws y cyd-destun strategol byd-eang, cenedlaethol a sefydliadol

Swyddogaethau Statudol

- 1 Darparu a rheoli ystod o wasanaethau iechyd y cyhoedd, diogelu iechyd, gwella gofal iechyd, cynghori ar iechyd, amddiffyn plant a gwasanaethau labordy microbiolegol a gwasanaethau'n ymwneud â gwyliadwraeth, ataliaeth a rheolaeth clefydau trosglwyddadwy;
- 2 Datblygu a chynnal trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth am faterion yn ymwneud â diogelu a gwella iechyd yng Nghymru ar gyfer cyhoedd; gwneud a chomisiynu ymchwil i faterion o'r fath a chyfrannu at ddarparu a datblygu hyfforddiant mewn materion o'r fath;
- 3 Casglu, dadansoddi a lledaenu gwybodaeth fel mater o drefn am iechyd pobl Cymru yn arbennig yn cynnwys achosion, marwolaethau a chyfraddau goroesi canser; a mynychder anomaledau cynhenid; a
- 4 Darparu, rheoli, monitro, gwerthuso a gwneud ymchwil i sgrinio cyflyrau iechyd a sgrinio materion yn ymwneud ag iechyd

Amcanion Llesiant

- 2 Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i'n plant yn cynnwys cyfleoedd i dyfu, chwarae a dysgu mewn amgylchedd iach a diogel
- 4 Lleihau peryglon iechyd y cyhoedd yn sgil clefydau presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg, peryglon ac argyfyngau amgylcheddol
- 5 Dylanwadu ar bolisi, cynllunio a dylunio i greu cymunedau cynaliadwy, cydlynus, sy'n ffynnu yn ddiwylliannol, er mwyn mynd i'r afael â phenderfyniadau ehangach iechyd a thorri cylch tlodi ac anafntais
- 6 Cynyddu potensial ein hadnoddau naturiol a diwylliannol er mwyn hybu iechyd a llesiant corfforol a meddyliol a chyfrannu at Gymru carbon isel, amgylcheddol gydnerth
- 7 Cryfhau ein rôl yn ymwneud ag iechyd byd-eang a datblygu cynaliadwy, gan wireddu buddion ymgysylltu rhyngwladol

Nodau'r Fframwaith Ansawdd ac Effaith

- Trawsnewid y Diwylliant; Cryfhau'r Gweithlu
- Monitro Effaith; Gweithio'n Gydweithredol

Strategaeth Ymchwil a Datblygu

- Cynyddu proffil ymchwil Iechyd Cyhoeddus Cymru trwy gyfathrebu'n eang gyda'n rhanddeiliaid a hyrwyddo troi ymchwil yn bolisi ac ymarfer iechyd y cyhoedd

Beth wnaeth ein staff a'n rhanddeiliaid ddweud wrthym

"Mae'r Strategaeth Iechyd Ryngwladol yn ysgogwr i fod yn Gymru fwy 'cyfrifol yn fyd-eang'."

Dyfyniad o ymatebion yr ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad wedi nodi angen i ddatblygu ein cydberthynas fyd-eang ymhellach. Mae gweithio'n ynysig ac mewn 'silos' yn cael ei ystyried yn negyddol, yn arbennig yn ymwneud â materion diogelwch iechyd byd-eang. Mae partneriaethau o fudd i'r ddwy ochr, symud gwybodaeth a meincnodi rhyngwladol yn cael eu hystyried yn hanfodol. Nododd yr ymatebwyr yr angen i: wella cyfathrebu a gweithredu wedi ei arwain gan ganlyniadau; blaenoriaethu a rhoi ffocws i waith iechyd byd-eang; cydnabod yr asedau a'r arloesedd presennol ym meysydd datblygu cynaliadwy, iechyd amgylcheddol ac eraill – i'w defnyddio er budd poblogaeth Cymru a chyfrannu at ddatblygu cynaliadwy byd-eang ac iechyd planedol.

Ein nodau:

- Cael cydnabyddiaeth fel asiantaeth sydd yn barod ac yn gymeradwy, sydd yn amddiffyn ein cenedl a chenedloedd eraill rhag bygythiadau ac argyfyngau iechyd byd-eang
- Hyrwyddo ymagwedd esiampl i ysgogi, cefnogi a gweithredu datblygu cynaliadwy a'i egwyddorion yng Nghymru a thu hwnt.

Byddwn yn cyflawni hyn trwy:

- ✓ **Rwydweithiau a Phartneriaethau:** Cryfhau a datblygu rhwydweithiau rhyngwladol presennol a newydd a phartneriaethau o fudd i'r ddwy ochr;
- ✓ **Newid ac Arloesi:** Hwyluso rhannu, ymchwil, symud gwybodaeth a chyfathrebu i ysgogi newid cadarnhaol ac arloesi;
- ✓ **Enw Da ac Amlygrwydd:** Sefydlu enw da fel asiantaeth iechyd y cyhoedd sydd yn arwain y byd a chynyddu ein hyfywedd cenedlaethol a sefydliadol;
- ✓ **Gallu a Chynaliadwyedd:** Cefnogi gallu a datblygu galluogrwydd trwy hyfforddiant, cynyddu adnoddau, creu incwm a chyfleoedd masnachol; a
- ✓ **Diwylliant a'r Amgylchedd:** Hyrwyddo diwylliant o ddinasyddion sy'n gyfrifol yn fyd-eang, gan hwyluso ymagwedd allblyg sydd yn edrych ymlaen.

Sut olwg sydd ar lwyddiant?

Yn y tymor byr byddwn yn:

- Cyflawni ein hymrwymiaidau i Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad a Swyddfa Ewropeaidd Sefydliad Iechyd y Byd (WHO EURO)
- Cryfhau partneriaethau iechyd byd-eang a chenedlaethol perthnasol IHCC, fel Rhaglen Cymru o Blaid Affrica
- Datblygu rhaglen o waith i gefnogi buddsoddiad ar gyfer iechyd a datblygu cynaliadwy yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ac yn hyrwyddo WFGA a'i ddulliau gweithredu.

Bydd y canlyniadau tymor canolig a hirdymor yn cael eu diffinio yn y Cynllun Gweithredu Strategaeth a Chynlluniau Gweithredu pellach.



Gwneud Iddo Ddigwydd

Bydd Strategaeth Iechyd Ryngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru a'i blaenoriaethau, ei hamcanion a'i gweithredoedd yn cael eu gweithredu ar draws y sefydliad cyfan a gweithlu iechyd y cyhoedd yng Nghymru, trwy bob cyfarwyddiaeth ac isadran, yn ogystal ag mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid cenedlaethol a rhyngwladol allweddol. Bydd y safbwynt rhyngwladol, dysgu, datblygu a'r cyfraniad byd-eang yn cael ei integreiddio i'n strategaeth sefydliadol hirdymor yn y dyfodol ac i'r IMTP, yn cynnwys amcanion a gweithredoedd perthnasol ar gyfer pob cyfarwyddiaeth ac isadran.

Bydd y strategaeth yn cefnogi ymgysylltu rhyngwladol ehangach y GIG trwy rôl genedlaethol yr IHCC a gweithredu'r Siarter.

Mae gan yr Is-adran Iechyd Rhyngwladol (yn cynnwys yr IHCC) rôl gydlynus a chefnogol i'w chwarae trwy: ddatblygu a gweithredu llywodraethu, atebolrwydd a strwythurau a phrosesau gwerthuso (ffigur 8); datblygu cynllun gweithredu a chynlluniau gweithredu pellach (ffigur 9); gwella mynediad i a mewnbwn gan rhanddeiliaid perthnasol (ffigur 10), rhwydweithiau a phartneriaethau strategol (tabl 4); blaenoriaethu a gweithredu gweithgareddau penodol; yn ogystal â hyrwyddo a gwella effaith; monitro a gwerthuso cynnydd; ac archwilio heriau a chyfleoedd yn y dyfodol, h.y. busnes i ddod.

Sefydlu Fframwaith Llywodraethu Iechyd Rhyngwladol

Mae llywodraethu cadarn yn hanfodol i weithredu'r strategaeth yn llwyddiannus. Rydym wedi datblygu Fframwaith Llywodraethu Strategol yn cynnwys Grŵp Cyngori Strategol, Grŵp Rhyngwladol trefniadol mewnol, Grŵp Gweithredu Siarter allanol (GIG) (eisoedd yn bodoli) a Grŵp Cyfeirio allanol (rhanddeiliaid ehangach) (ffigur 8). Y llinell atebolrwydd cyntaf yw Uwch Reolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru, yna'r Tîm Gweithredol ac yna'r Bwrdd trwy'r broses IMTP. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn uniongyrchol atebol ac yn adrodd i Lywodraeth Cymru. Mae IHCC hefyd yn creu adroddiad cynnydd rheolaidd ar ei weithgareddau, a gyhoeddir bob dwy flynedd.

1 Grŵp Cyngori Strategol

Byddai gan y grŵp trosfwaol hwn rôl oruchwylio a monitro strategol i adolygu cynnydd ac arwain cyfeiriad ymgysylltu a chydweithredu rhyngwladol yn y dyfodol, gan sicrhau cyd-fynd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol a sefydliadol, er mwyn cynyddu'r budd i iechyd y cyhoedd yng Nghymru a thu hwnt. Bydd y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr perthnasol o Fwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru a'r GIG, yn ogystal â chynrychiolwyr o rhanddeiliaid cyhoeddus, academaidd, trydydd sector a rhyngwladol allweddol. Caiff y grŵp ei drefnu a'i gadeirio gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

2. Grŵp Rhyngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru

Bydd y grŵp newydd hwn yn cael ei sefydlu ac yn cynnwys canolbwyntiau rhyngwladol neilltuoel o bob cyfarwyddiaeth ac isadran ar draws y sefydliad a thimau lleol.

3 Grŵp Gweithredu'r Siarter

Mae hwn yn grŵp sydd eisoes yn bodoli, wedi ei drefnu a'i gadeirio gan yr IHCC, sydd yn darparu cydlyniant i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Siarter ar draws Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yng Nghymru.

4 Grŵp Cyfeirio


Byddai aelodau o'r grŵp hwn yn gysylltiadau allweddol gan randdeiliaid a phartneriaid ar draws pob sector, a allai gael eu gwahodd ad hoc i gyfarfodydd grwpiau eraill, yn dibynnu ar eu harbenigedd.

Yn ogystal, bydd **rhwydwaith rhithwir** o staff iechyd y cyhoedd a chysylltiedig, sydd yn gysylltiedig neu â diddordeb mewn iechyd rhyngwladol a byd-eang, yn cael ei sefydlu a'i gynnal **trwy wefan, e-fwletin a rhestrau postio** IHD. Gyda'r grwpiau y soniwyd amdanynt yn flaenorol, bydd sianeli cyfathrebu effeithiol ar gael i wella rhannu gwybodaeth, cydweithredu a chyfrifoldeb; i ddwysau symud, cyfathrebu a gweithredu gwybodaeth; i greu synergeddau, cynyddu effaith a defnyddio cyfleoedd newydd.


Llwybr Gweithredu

Bydd gweithredu'r Strategaeth Iechyd Ryngwladol yn cael ei sicrhau trwy ddatblygu Cynllun Gweithredu, yn cynnwys mecanweithiau gwerthuso ac adrodd (ffigur 9). Bydd monitro'r gwaith o weithredu'r strategaeth a mesur ei heffaith yn rhan o broses monitro, adrodd a sicrhau Cynllun Strategol Iechyd Cyhoeddus Cymru (IMTP). Bydd y Cynllun Gweithredu yn cynnwys tri Chynllun Gweithredu tymor canolig (3 blynedd) gyda chanlyniadau, cynnyrch a dangosyddion llwyddiant penodol, fydd yn cael eu hintegreiddio a'u gweithredu trwy'r IMTP sefydliadol. Bydd adolygiadau a gwerthusiadau tymor canolig, yn ogystal â Gwerthusiad Terfynol, yn cael eu cynnal hefyd.

Ffigur 8. Fframwaith Llywodraethu Strategaeth Iechyd Ryngwladol




Ffigur 9. Gweithredu ac Atebolrwydd Strategaeth Iechyd Ryngwladol



Bydd yr IHD, yn cynnwys yr IHCC, yn parhau i gysylltu â rhanddeiliaid, partneriaid a rhwydweithiau allweddol (ffigur 10 a thabl 4), gan barhau'n ganolbwynt rhyngwladol ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r GIG.

Ffigur 10. Map Rhanddeiliaid Iechyd Cyhoeddus Cymru



Tabl 4. Partneriaethau Strategol Iechyd Cyhoeddus Cymru

Swyddfa Ranbarthol Ewrop WHO (WHO EURO) a Rhwydwaith Rhanbarthau dros Iechyd (RHN) Ewropeaidd y WHO	Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru berthynas ddeinamig gyda WHO EURO, yn gwasanaethu fel canolbwynt ar gyfer RHN ac yn eistedd ar ei Grŵp Llywio. Mae ein staff hefyd yn cefnogi Dinasoedd Iach Cymru, gan weithio gyda llywodraeth leol. Trwy'r bartneriaeth hon o fudd i'r ddwy ochr, rydym yn cyfrannu'n weithredol at brosesau polisi a gwneud penderfyniadau Ewropeaidd a byd-eang. Mae'r bartneriaeth wedi ein galluogi i rannu a hyrwyddo ein straeon llwyddiant ac mae wedi cynyddu ein proffil cenedlaethol a rhyngwladol. Rydym yn gweithio tuag at statws Canolfan Gydweithredol WHO er mwyn cydnabod ein harbenigedd a'n hymrwymiad.
Cymdeithas Ryngwladol Sefydliadau Iechyd y Cyhoedd Cenedlaethol (IANPHI)	Mae IANPHI yn gwella iechyd y byd trwy ysgogi defnyddio profiad ac arbenigedd ei aelod-sefydliadau i ddatblygu systemau iechyd y cyhoedd cadarn gan ddefnyddio model cymorth rhwng cymheiriaid yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn aelod llawn o IANPHI, ac mae wedi dechrau Adolygu cymheiriaid er mwyn asesu ein rôl genedlaethol yn cyflawni ein cenhadaeth a gwneud argymhellion ar gyfer datblygu yn y dyfodol.
EuroHealthNet (EHN)	Mae EHN yn gydweithrediad dielw o gyrff cyhoeddus yn gweithio ar lefelau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol ar draws Ewrop. Mae'n defnyddio fframwaith partneriaeth, gan gefnogi gwaith yng ngwledydd yr UE a Gwladwriaethau cysylltiedig trwy ddatblygu polisi a phrosiectau, rhwydweithio a chyfathrebu. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn aelod llawn o EHN ac yn eistedd ar ei Fwrdd.
Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad	Gan roi arweiniad ar wneud polisiau, cymorth technegol a gwasanaethau cynghori i aelodau'r Gymanwlad, mae'r Ysgrifenyddiaeth yn gweithio i gyflawni twf cynaliadwy, cynhwysol a theg. Mae'n hybu democratiaeth, y gyfraith, hawliau dynol, llywodraethu da a datblygu cymdeithasol ac economaidd. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r Gymanwlad ar ddatblygu dogfennau canllaw a phecynau cymorth.
Public Health England (PHE)	Trwy'r Pwyllgor Iechyd Byd-eang a grwpiau a mentrau eraill ar draws y DU, rydym yn hysbysu am ddatblygiad a gweithgareddau iechyd byd-eang y DU. Mae hyn yn ein galluogi i archwilio synergeddau a chyfleoedd i weithio'n gydweithredol.
Cyfadran Iechyd y Cyhoedd (FPH) y DU	Mae gweithwyr iechyd proffesiynol ar draws Cymru yn cymryd rhan mewn Grwpiau Diddordeb Arbennig (SIG) FPH yn cynnwys ystod o destunau, fel Ewrop, Iechyd Byd-eang, Affrica, India ac eraill. Mae hyn yn rhoi safbwynt Cymru ac yn galluogi rhannu gwybodaeth a dysgu, ac yn hwyluso cydweithredu ar brosiectau ar y cyd.

Goblygiadau Adnoddau a Galw

Mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn ymdrechu i uwchraddio ei swyddogaeth a'i asedau rhyngwladol, ac i fod yn ganolbwynt arloesol ar gyfer gwaith iechyd rhyngwladol a byd-eang ar draws y GIG a Chymru, gan ddarparu arweinyddiaeth, cydlynu ac arbenigedd. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i ni 'wneud yr hyn sydd angen ei wneud', gan gryfhau ein hymrwymiad sefydliadol a'n cyfrifoldeb, a sicrhau gallu cynaliadwy a'r defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Yn dilyn datblygiadau byd-eang ac Ewropeaidd ac o ganlyniad i'n rôl rhyngwladol weithredol, cafwyd cynnydd yn y disgwyliadau a'r galw ar y swyddogaeth rhyngwladol. Mae hyn yn gofyn am flaenoriaethu a ffocws deallus er mwyn cynyddu'r buddion i'r sefydliad, i'r GIG a Chymru, yn ogystal â'n partneriaid allanol. Mae hefyd yn galw am weithio'n agosach gyda'n Timau Iechyd y Cyhoedd Lleol, cymunedau Cymru a Llywodraeth Leol, yn ogystal â chydau'r sector academiaidd, y trydydd sector a'r sector preifat, gan ddefnyddio cyfleoedd newydd, cyfuno ymdrechion a dod â chyllid allanol i mewn.

Ceir dwy ymagwedd i sicrhau adnoddau ychwanegol ac mae angen eu cymhwyso gyda'i gilydd:

1 Buddsoddi cenedlaethol trwy:

- Fewnbwn strategol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu gallu a chryfhau rôl rhyngwladol lechyd Cyhoeddus Cymru, yn cynnwys ymestyn swyddogaethau IHCC ar draws y GIG;
- Mewnbwn gweithredol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi ymgysylltu rhyngwladol a gwaith ar draws y sefydliad a chryfhau cydlyniant a chydweithredu trwy'r Isadran Iechyd Rhyngwladol; a
- Mewnbwn gan randdeiliaid ar draws y sector academiaidd, y trydydd sector a'r sector preifat trwy grantiau ymchwil a rhaglenni gwaith ar y cyd; neu archwilio ymagweddau busnes.

2 Buddsoddi rhyngwladol trwy ddefnyddio ffynonellau creu incwm y DU, Ewropeaidd a byd-eang, fel:

- Cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil a pholisi rhyngwladol ar y cyd;
- Datblygu a marchnata gwasanaethau, dulliau ac ymagweddau arloesol; a
- Defnyddio cyfleoedd masnachol a masnachu.

Mae gan y Strategaeth Iechyd Ryngwladol y potensial i hwyluso creu incwm a chefnogi meithrin gallu, gan ddarparu gweledigaeth a rennir a fframwaith ar gyfer ymgysylltu rhyngwladol, gan greu amgylchedd sydd yn galluogi a diwylliant ac ymarfer allblyg.



Casgliad

Mae Strategaeth Iechyd Ryngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ddogfen ysbrydoledig, yn adlewyrchu ar ein hanes unigryw a'n hasedau fel Cenedl ac fel sefydliad. Wedi ein lleoli mewn gwlad fach gydag adnoddau cyfyngedig, rydym wedi gosod nod uchelgeisiol i roi budd i bobl Cymru a'u hiechyd a'u lles yn ogystal â chyfrannu at wledydd eraill yn fyd-eang. Bydd dwyn ein gweledigaeth ymlaen a dod yn esiampl yn rhyngwladol yn gofyn am ymrwymiad sefydliadol yn ogystal â chefnogaeth Llywodraeth Cymru a'n partneriaid ar draws Cymru a thu hwnt.



Geirfa

Mae **Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE)** yn brofiadau trawmatig sydd yn digwydd cyn 18 oed ac yn cael eu cofio trwy gydol y cyfnod o fod yn oedolyn.

Ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR) yw gallu microorganeb, fel bacteria, feirysau, a rhai parasitiaid i atal gwrthficrob, fel gwrthfotigau a meddyginiaeth gwrthfalaria rhag gweithio yn ei erbyn. O ganlyniad, mae triniaethau safonol yn mynd yn aneffeithiol, mae heintiau'n parhau a gallant ledaenu i eraill.

Mae **Bioddiogelwch a bioddiogeledd** yn gysylltiedig ond yn gysyniadau gwahanol. Nod bioddiogelwch yw lleihau neu ddileu cyswllt unigolion a'r amgylchedd â chyfryngau biolegol a allai fod yn beryglus trwy weithredu protocol rheoli a chynhwysiant. Bioddiogeledd yw atal colled, twyll neu gamddefnydd o ficro-organebau a deunydd biolegol a gwybodaeth yn ymwneud ag ymchwil trwy gyfyngu mynediad i gyfleusterau, deunydd biolegol a gwybodaeth yn ymwneud ag ymchwil (CDC).

Mae **Clefydau trosglwyddadwy** neu glefydau heintus yn cael eu hachosi gan ficro-organebau pathogenig, fel bacteria, feirysau, paraseitiaid neu ffwng; gellir lledaenu'r clefydau yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o un person i'r llall.

Mae **clefydau anhrosglwyddadwy (NCD)**, a elwir yn glefydau cronig hefyd, yn tueddu i barhau am fwy o amser ac maent o ganlyniad i ffactorau genetig, ffisiolegol, amgylcheddol ac ymddygiadol.

Mae **Clefyd feirws ebola (EVD)**, a alwyd yn flaenorol yn dwymyn gwaedlifol Ebola, yn salwch difrifol, angeuol yn aml, ymysg bodau dynol. Caiff ei drosglwyddo i bobl gan anifeiliaid gwyllt ac mae'n lledaenu yn y boblogaeth trwy gael ei drosglwyddo rhwng pobl. Cyfradd marwolaeth EVD ar gyfartaledd yw tua 50%. Mae cyfraddau marwolaeth wedi amrywio o 25% i 90% mewn achosion yn y gorffennol.

Mae'r **Undeb Ewropeaidd (UE)** yn undeb economaidd a gwleidyddol unigryw rhwng **28 o wledydd Ewropeaidd** sydd, gyda'i gilydd, yn cynnwys llawer o'r cyfandir. Cafodd yr UE ei chreu yn sgil yr Ail Ryfel Byd. Y camau cyntaf oedd meithrin cydweithredu economaidd: y syniad oedd bod gwledydd sy'n masnachu â'i gilydd yn dod yn rhyngddibynnol yn economaidd ac felly'n fwy tebygol o osgoi gwrthdaro. Y canlyniad oedd Cymuned Economaidd Ewrop (EEC), a grewyd ym 1958, a chynyddu cydweithredu economaidd i ddechrau rhwng chwe gwlad: Gwlad Belg, yr Almaen, Ffrainc, yr Eidal, Lwcsembwrg a'r Iseldiroedd. Ers hynny, mae marchnad sengl enfawr wedi cael ei chreu ac yn parhau i ddatblygu tuag at ei llawn botensial.

Iechyd byd-eang yw'r maes astudiaeth, ymchwil ac ymarfer sydd yn rhoi blaenoriaeth i wella iechyd a chael tegwch yn ymwneud ag iechyd i bawb yn fyd-eang, lle gall problemau fynd y tu hwnt i ffiniau cenedlaethol a chael effaith fyd-eang.

Mae **iechyd rhyngwladol** yn fwy cyffredin yn cynnwys materion sydd yn digwydd y tu hwnt i'ch gwlad eich hun, yn cynnwys cydweithredu ar draws ffuniau a chaiff ei ddefnyddio weithiau i gyfeirio at weithio gyda gwledydd datblygol ac ymdrechion cymorth dramor

Mae **Un Iechyd** yn cydnabod bod iechyd pobl yn gysylltiedig ag iechyd anifeiliaid a'r amgylchedd. Nod Un Iechyd yw annog ymdrechion cydweithredol disgyblaethau lluosog sydd yn gweithio'n lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang i gael yr iechyd gorau ar gyfer pobl, anifeiliaid a'n hamgylchedd.

Roedd **Siarter Ottawa ar gyfer Hybu Iechyd**, a lansiwyd ym 1986, yn diffinio Hybu Iechyd fel y broses o alluogi pobl i gynyddu rheolaeth dros, a gwella, eu hiechyd. Er mwyn cyrraedd cyflwr o les corfforol, meddyliol a chymdeithasol cyflawn, mae'n rhaid i unigolyn neu grŵp allu nodi a gwireddu dyheadau, bodloni anghenion, a newid neu ymdopi â'r amgylchedd. Gwelir iechyd, felly, fel adnodd ar gyfer bywyd bob dydd, nid amcan bywyd. Mae iechyd yn gysyniad sydd yn pwysleisio adnoddau cymdeithasol a phersonol, yn ogystal â galluoedd corfforol. Felly, nid cyfrifoldeb y sector iechyd yn unig yw hybu iechyd, ond mae'n mynd y tu hwnt i ffordd o fyw iach i lesiant.

Iechyd Planedol yw cyflawni'r safon iechyd, llesiant a thegwch uchaf posibl yn fyd-eang trwy sylw deallus i systemau dynol – gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol – sydd yn llunio dyfodol dynoliaeth a systemau naturiol y Ddaear sydd yn diffinio'r terfynau amgylcheddol diogel y gall dynoliaeth ffynnu ynddynt.

Nod **Sefydliad Iechyd y Byd (WHO)** yw creu dyfodol gwell, iachach i bobl ar hyd a lled y byd. Dechreuodd y WHO pan ddaeth ei gyfansoddiad i rym ar 7 Ebrill 1948, a chaiff ei ddathlu bob blwyddyn bellach fel Diwrnod Iechyd y Byd.

Iechyd 2020 yw strategaeth iechyd a fframwaith polisi Ewrop. Ei nod yw cefnogi gweithredoedd ar draws llywodraethau a chymdeithas er mwyn: "gwella iechyd a llesiant poblogaethau yn sylweddol, lleihau anghydraddoldebau iechyd, cryfhau iechyd y cyhoedd a sicrhau systemau iechyd sydd yn canolbwyntio ar bobl, yn gyffredinol, yn deg, yn gynaliadwy ac o ansawdd uchel".

Mae **Clefydau milheintiol** yn glefydau heintus ymysg anifeiliaid a all achosi clefydau wrth gael eu trosglwyddo i fodau dynol.

Esbonio Dangosyddion Delweddu Cymharol (Ffigur 6)

Amcangyfrif o Faint Poblogaeth yw'r rhagamcan o faint poblogaeth, yn seiliedig ar ddata sydd ar gael ar faint poblogaeth

Disgwyliad Oes (mewn blynyddoedd) yw'r amcan o'r amser y bydd person sydd yn byw yn y wlad honno yn byw

Disgwyliad Oes iach ar Enedigaeth (mewn blynyddoedd): y blynyddoedd ar gyfartaledd y disgwylir i fabi newyddanedig fyw mewn "iechyd cyflawn" oherwydd clefyd / anaf / marwolaeth gynnar (yn amodol ar gyfraddau marwolaeth sy'n benodol i oed a chyfraddau salwch unrhyw gyfnod penodol).

Dros bwysau neu Ordewdra (%) yw'r croniad annormal neu ormodol o fraster a all amharu ar iechyd. Mae gan berson sydd dros bwysau Fyngai Mas y Corff (BMI) sydd yn fwy na neu'n gyfwerth â 25, ac mae gan berson sydd yn ordew BMI sydd yn fwy na neu'n gyfwerth â 30.

Caiff **Smygu ymysg Oedolion (%)** fel arfer ei fesur trwy bennu a yw person wedi smygu tybaco yn y 30 diwrnod diwethaf. Daw'r data hwn fel arfer o arolygon aelwydydd.

Atodiadau

Atodiad I

Datblygu ein Strategaeth Iechyd Ryngwladol

Cyd-destun ac Alinio Strategol

Mae ein strategaeth yn cynnwys y cyd-destunau byd-eang, Ewropeaidd, DU a chenedlaethol, sy'n cynrychioli realaeth, tueddiadau a rhagolygon y dyfodol. Cynhaliwyd adolygiad llenyddiaeth cyflym cychwynnol, yn edrych trwy fwy na 50 o ddogfennau strategol cenedlaethol a rhyngwladol. Mae copi o'r rhestr lenyddiaeth ar gael ar gais.

Proses Ymgynghori ac Ymgysylltu

Datblygwyd y strategaeth trwy ddefnyddio ymagwedd o ddulliau cymysg. I nodi testunau allweddol o ddiddordeb, profiadau, syniadau a meysydd blaenoriaeth, mae **ymgynghoriad ac ymgysylltu cynhwysol, eang** wedi cael ei chynnal gyda staff Iechyd Cyhoeddus Cymru a rhanddeiliaid allanol allweddol, yn cynnwys rhanddeiliaid rhyngwladol o bob sefydliad a sector perthnasol. Amlinellir y dulliau a ddefnyddir isod:

Ymgynghori ar-lein trwy arolwg wedi ei strwythuro ar y we

Roedd yr arolwg ar-lein yn agored i'r holl randdeiliaid â diddordeb am gyfnod o ddau fis. Cafodd 97 o ymatebion gan staff Iechyd Cyhoeddus Cymru a sefydliadau eraill ar draws y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector academiaidd. Cafodd cyfranogwyr eu recriwtio yn uniongyrchol trwy wahoddiad ar e-bost, a thrwy eirida, digwyddiadau a dosbarthu e-fwletinâu mewnol ac allanol.

Cyfweliadau lled-strwythuredig

Cynhaliwyd bron saith deg (70) o gyfarfodydd wyneb yn wyneb, y rhan fwyaf wedi eu cynnal trwy gyfweliad lled-strwythuredig, a chawsant eu cynnal gydag uwch randdeiliaid mewnol ac allanol.

Gweithdai ymgysylltu rhanddeiliaid ar draws Cymru

Cynhaliwyd dau weithdy rhanddeiliaid ffurfiol, gyda dwy sesiwn ymgysylltu arall yn digwydd fel rhan o weithdai ehangach fel rhan o weithdai ehangach. Roedd y cyfranogwyr yn cynnwys cynrychiolwyr ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn ogystal â sefydliadau allanol. Anfonwyd gwahoddiad agored i fynychu i fwy na 700 o unigolion gwahanol ledled Cymru. Roedd y gweithdai yn annog trafodaeth wedi ei strwythuro a dadleuon ynghylch nifer o destunau, yn cynnwys blaenoriaethau a chyfleoedd a rhwystrau o ran cymryd rhan mewn gwaith rhyngwladol. Yn ogystal, cafwyd cyfres o gyflwyniadau a thrafodaethau mewn uwch gyfarfodydd tîm ar draws y sefydliad, yn cynnwys pob cyfarwyddiaeth ac isadran. Mae cynnwys llawer o gydweithwyr ar draws y sefydliad wedi bod yn nod allweddol. Cafodd cydweithwyr gyfle i lenwi arolwg ar-lein neu roi sylwadau llafar neu ysgrifenedig a mewnbwn.

Digwyddiadau rhanddeiliaid mewnol ac allanol

Defnyddiwyd pob digwyddiad oedd yn berthnasol yn rhyngwladol ac yn genedlaethol i gyflwyno ymgysylltiad iechyd byd-eang Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn ogystal ag annog adborth strategol.


Mapio ein Cyrhaeddiad Rhyngwladol

Rydym wedi mapio cysylltiadau a gweithgareddau rhyngwladol hanesyddol a pahrhaus Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ganolbwyntio ar fuddion ac effaith ein gwaith i Gymru a thu hwnt trwy broses ymgysylltu rhagweithol ar draws y sefydliad.

Tabl 1.1. Sefydliadau sydd yn rhoi mewnbwn i ddatblygiad y strategaeth

BIP Abertawe Bro Morgannwg	Cymdeithas Ddysgedig Cymru
Prifysgol Aberystwyth	Ysgol Hylendid a Meddygaeth Drofannol Llundain
BIP Aneurin Bevan	Conffederasiwn GIG Cymru
BIP Betsi Cadwaladr	Grŵp Iechyd Rhyngwladol y GIG
Comisiwn Bevan	Oxfam
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	Bwrdd Addysgu Iechyd Powys
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	Public Health England
Prifysgol Caerdydd	Prifysgol Abertawe
Care for Uganda	Prifysgol De Cymru
Dolen Cymru	Cyfadran Iechyd y Cyhoedd y DU
EuroHealthNet	Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Rhwydwaith Cydweithredu ar Iechyd Meddwl Byd-eang	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Hub Cymru Africa	Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru o Blaid Affrica
BIP Hywel Dda	Llywodraeth Cymru
Cymdeithas Ryngwladol Sefydliadau Iechyd y Cyhoedd Cenedlaethol (IANPHI)	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
	Sefydliad Iechyd y Byd


Rhoddodd tri deg un (31) o sefydliadau allanol fewnbwn ar draws sectorau amrywiol yn cynnwys y sector cyhoeddus, llywodraethol, y trydydd sector ac academia. Casglodd yr ymgynghoriad cant tri deg wyth (138) o ymatebion unigol, wyth deg pump (85) gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (62% o'r holl ymatebion) a phum deg tri (53) o unigolion o sefydliadau eraill (28% o randdeiliaid ledled Cymru a 10% o sefydliadau rhyngwladol/DU). Casglwyd data trwy arolwg ar-lein, cyfweiliadau wyneb yn wyneb a chyflwyniadau ar draws isadrannau Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn ogystal â dod â mewnbwn allanol i mewn. Rydym wedi ymgysylltu'n barhaus â'n Bwrdd, ein cyfarwyddwyr a'r uwch dîm rheoli, yn cynnwys sesiynau briffio niferus, cyflwyniadau ac ymgorffori adborth.

Ffigur 1.1. Nifer y Sefydliadau Allanol yr Ymgynghorwyd â nhw fesul Sector


Yr Hyn Ddywedodd Ein Staff a'n Rhanddeiliaid Wrthym Ni

Cafodd canlyniadau'r ymgynghoriad ar-lein a'r cyfweiliadau eu gwneud yn ddienw a'u dadansoddi. Cafodd meysydd thematig eu nodi sydd wedi tanategu ein blaenoriaethau strategol, ein canlyniadau a'n hamcanion. Mae bron hanner (46%) ymatebwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn gysylltiedig â gwaith rhyngwladol fel rhan o'u rôl yn y sefydliad ac mae traean (31%) wedi bod yn gysylltiedig y tu allan i'w rôl sefydliadol. Yn ôl ymatebwyr yr arolwg ar-lein, mae'r **blaenoriaethau ar gyfer ein gwaith rhyngwladol** yn cynnwys: dysgu o a chyfrannu at ymchwil iechyd y cyhoedd a sail dystiolaeth rhyngwladol (98%); gwella cydlyniaeth a chydgyssylltiad gweithgaredd rhyngwladol ar draws y sefydliad (95%); dysgu o bolisi ac arfer da a chynyddu effaith Cymru ar yr agenda iechyd fyd-eang a chefnogi a datblygu gallu a galluogrwydd sefydliadol (94% yr un) (ffigur 1.2).

Ffigur 1.2. Graddio Blaenoriaethau: Canran yr Ymatebwyr sydd yn nodi bod Blaenoriaethau yn 'Bwysig lawn' neu'n 'Eithaf Pwysig'



Ffigur 1.3. Sut Dylem Sicrhau bod y Strategaeth yn Cyflawni ei Nodau?



Trwy'r arolwg ar-lein, nododd ymatebwyr sut y byddent yn hoffi cymryd rhan yng ngwaith iechyd rhyngwladol a byd-eang Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Partneriaeth: cyfrannu at gydweithrediadau presennol a chwilio am bartneriaethau rhyngwladol newydd/cryfhau ein partneriaethau yn genedlaethol;
- Datblygu arbenigedd a gallu: rhannu gwybodaeth, arbenigedd ac arfer da gyda chyrrff rhyngwladol/cefnogi a datblygu gallu a galluogrwydd sefydliadol; a
- Tystiolaeth: cael mynediad a gallu cyfrannu at ymchwil a thystiolaeth Rhyngwladol.

Gofynnodd yr ymgynghoriad ar-lein i ymatebwyr hefyd nodi'r mecanweithiau y byddent yn eu defnyddio i sicrhau bod y strategaeth yn cyflawni ei nodau, yn cynnwys gweithredu, llywodraethu ac atebolrwydd. Rhoddwyd y sgorau uchaf i: drefnu digwyddiadau neu ymgysylltu staff; nodi cyfrifoldebau ar draws y sefydliad; a datblygu rhwydwaith rhithwir, yn ogystal â phwysigrwydd sefydlu strwythur adrodd a rheoli ffurfiol (Ffigur 1.3). Roedd yr ymatebion yn nodi mai'r ffordd fwyaf priodol o sicrhau gweithredu strategaeth fyddai trwy ymgysylltu uwch (Bwrdd/Gweithrediaeth) a chyfrifoldeb yn ogystal â thrwy arweinwyr is-adrannol/uwch wedi eu henwebu ar draws y sefydliad. Roedd gweithredu'r strategaeth yn cael ei ystyried yn gyfrifoldeb i holl staff Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb

Yma caiff Asesu Effaith y Strategaeth Iechyd Ryngwladol ar Gydraddoldeb ei gyflwyno gan ystyried y ffordd y gallai effeithio ar y rheiny â nodweddion wedi eu diogelu ac i hyrwyddo cydraddoldeb.

Ystyriaethau ac Argymhellion

Nid yw datblygiad y strategaeth yn cael effaith uniongyrchol ar ddarparu'r gwasanaeth, felly caiff yr effaith ganlyniadol ar y rheiny â nodweddion wedi eu diogelu ei nodi i fod ar ei isaf neu'n 'isel'.

Mae'r argymhellion yn cynnwys:

- Yn ystod cyfnod ymgynghori'r strategaeth, dylai ymgysylltu â'r grwpiau perthnasol o randdeiliaid ddigwydd (cwblhawyd);
- Dylai'r strategaeth geisio codi ymwybyddiaeth o'r rheiny â nodweddion wedi eu diogelu trwy ddefnyddio iaith gynhwysol (cyhoeddir y strategaeth yn Gymraeg a Saesneg);
- Sicrhau bod unrhyw ddogfennau sy'n cael eu cynhyrchu yn hygyrch (mae a bydd y strategaeth a dogfennau cysylltiedig yn cael eu lledaenu'n eang ac ar gael ar-lein); a
- Dylid integreiddio monitro effaith er mwyn sicrhau bod asesu'r effaith ar gydraddoldeb yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus.

Asesu'r Effaith ar Iechyd

Yn dilyn trafodaethau gyda'r Uned Asesu'r Effaith ar Iechyd, cytunwyd mai asesiad o effaith pen desg fyddai'r ffordd fwyaf addas o asesu effeithiau posibl y Strategaeth Iechyd Ryngwladol. Cynhaliwyd yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd gan grŵp bach o gynrychiolwyr o dîm y prosiect, gydag adolygiad o'r dogfennau a'r argymhellion terfynol yn cael ei gynnal gan yr Uned Asesu Effaith ar Iechyd.

Crynodeb

Gall fod angen cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd gan gyfarwyddiaethau ac isadrannau eraill er mwyn asesu effaith bosibl gweithgaredd rhyngwladol ar iechyd a llesiant poblogaethau - fel yr ymateb i argyfwng dyngarol brys. Gall fod angen cymryd camau ar lefel sefydliadol i leihau ein cyfraniad i allyriadau carbon byd-eang. Gellir mynd i'r afael â hyn trwy fentrau gwrthbwyso carbon. Defnyddiwyd yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd i lywio datblygiad y strategaeth hon. Mae fersiynau llawn o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ar gael ar gais.

Atodiad II

Allgymorth Rhyngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae dogfen atodol wedi cael ei pharatoi yn rhoi gwybodaeth lawn am bartneriaethau rhyngwladol iechyd Cyhoeddus Cymru. Cyflwynir gwybodaeth grynno yma.

Gweithgaredd ymchwil rhyngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ceir 25 o brosiectau ymchwil rhyngwladol wedi eu cwblhau a 21 sydd yn mynd rhagddynt. Mae'r partneriaethau cysylltiedig yn cynnwys 31 o gydweithrediadau'r DU; 9 rhyngwladol; a 6 phrosiect gyda chwmpas rhyngwladol (ond yn gydweithredwyr cenedlaethol yn unig).

Blwch 2.1. Cyfrannu at Ddiogelwch Iechyd Byd-eang ac Iechyd Planedol

Datblygu Pecyn Cymorth Diogelu Iechyd ar gyfer Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad

Mae'r achosion o Ebola yng Ngorllewin Affrica, Zika yn Ne America a'r Seiclon yn Fiji yn enghreifftiau diweddar o ddigwyddiadau ag effeithiau iechyd ac economaidd sylweddol sydd yn bygwth diogelwch byd-eang. I gydnabod y bygythiad i ddiogelwch iechyd byd-eang yn sgil peryglon heintus ac amgylcheddol, cafodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ei gomisiynu gan Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad i ddatblygu fframwaith polisi, neu becyn cymorth, ar gyfer diogelu iechyd.

Diben y pecyn cymorth yw rhoi adnodd cynhwysfawr ac ymarferol ar gyfer gwneuthurwyr polisiâu a chynllunwyr sy'n gyfrifol am gryfhau diogelu iechyd rhanbarthol, is-genedlaethol, cenedlaethol a byd-eang fel rhan o system iechyd gyffredinol. Mae'n seiliedig ar **Fframwaith Systemau ar gyfer Polisi Iechyd** (Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad 2016) wedi ei ardystio gan Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad a chaiff ei gyflwyno fel fframwaith wedi ei awgrymu i'w ddefnyddio ar draws y 52 aelod-wladwriaeth, i'w deilwra i anghenion a nodir mewn gwledydd penodol, felly'n eu galluogi a'u grymuso i gydlynw a threfnu eu gwasanaethau diogelu iechyd eu hunain. Mae'r Pecyn Cymorth Diogelu Iechyd sydd wedi ei ddatblygu wedi cael ei roi ar brawf yn Sierra Leone, gan roi mewnwelediad ychwanegol pwysig i gynllunio strategol ar ôl Ebola, ac mae gwerthusiad diweddar wedi dangos ei werth yn ategu at Gyd-offeryn Gwerthuso Allanol WHO.

Mae hyn o fudd i Iechyd Cyhoeddus Cymru trwy:

- Godi ei broffil yn y gymuned ryngwladol
- Cefnogi datblygiad ein staff

Mae hyn o fudd i bobl Cymru trwy:

- Gymhwyso adnodd yn lleol a allai gryfhau ein system iechyd a galluogi Cymru i baratoi ei hun yn well am y bygythiad o bandemig ac argyfyngau iechyd byd-eang eraill

Dr Quentin Sandifer, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd, oedd cadeirydd grŵp datblygu'r Pecyn Cymorth. Rhannodd: *"Roedd yn ffrainc cael cynnig arwain menter proffil uchel ar ran Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad ac mae'r Pecyn Cymorth ei hun yn brawf o'r doniau eithriadol ym maes diogelu iechyd yng Nghymru. Rhoddodd datblygu'r Pecyn Cymorth brofiad i Iechyd Cyhoeddus Cymru o weithio gydag uwch swyddogion o Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad a'r Weinyddiaeth Iechyd ar draws y byd, gan arwain at ardystiad gan y Gweinidogion Iechyd yn eu Cyfarfod Blynyddol yn 2016"*.

Llwybr ar gyfer Iechyd Byd-eang: Ymagweddau Posibl yng Nghymru

Mae'r ddogfen yn amlinellu sut mae Cymru'n defnyddio ymagweddau arloesol a'r ffordd y gallai wasanaethu fel enghraifft bosibl o ddinasyddiaeth fyd-eang, llywodraethu rhwng sectorau a phartneriaeth ryngasiantaethol a chyfrifoldeb dros iechyd dynol a phlanedol da. Mae'n rhoi enghreifftiau o ddatblygiadau cenedlaethol sy'n cyfrannu at gynyddu ymwybyddiaeth o a chryfhau ymateb i ddiogelwch iechyd byd-eang; eirioli dros systemau iechyd, academia, diwydiant, llywodraeth a'r sector dielw yn cyd-fynd yn well, tra'n ystyried cyd-destun Cymru, y DU a'r cyd-destun ehangach.

Diben y ddogfen hon, a ddatblygwyd mewn ymateb i bryderon ynghylch argyfyngau iechyd byd-eang a nodwyd gan Gyngor InterAction* (IAC) yn 2015, oedd hysbysu cyfarfod Grŵp Arbenigol Lefel uchel yr IAC ynghylch Iechyd Byd-eang a'r 33ain Cyfarfod

Blwch 2.1. (yn parhau)

Llawn Blynnyddol yr IAC yn 2016, y mae ei argymhellion Communiqué Terfynol yn cynnwys cyfeiriad at ddatblygiadau arloesol yng Nghymru fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mae hyn o fudd i Iechyd Cyhoeddus Cymru trwy:

- Godi ei broffil yn y gymuned ryngwladol
- Galluogi arbenigedd Cymru i gael ei rannu'n rhyngwladol

Mae hyn o fudd i bobl Cymru trwy:

- Gyfranogiad gweithredol yn yr agenda diogelwch iechyd byd-eang, gan alluogi Cymru i baratoi ei hun yn well ar gyfer y bygythiad o bandemig ac argyfyngau iechyd byd-eang eraill

*Mae Cyngor InterAction yn sefydliad rhyngwladol annibynnol sydd yn symud profiad, egni a rhwydweithiau dros dri deg o gyn-benaethiaid gwlad neu lywodraeth. Maent yn datblygu argymhellion ac atebion ymarferol ar y cyd ar gyfer problemau gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol sy'n wynebu dynoliaeth, yn meithrin cydweithredu rhyngwladol ac yn gweithredu mewn tri maes blaenoriaeth: heddwch a diogelwch (yn cynnwys diogelwch iechyd byd-eang), adfywiad economaidd y byd, safonau moesol cyffredinol.

Blwch 2.2. Gwireddu Buddion Datblygu Gallu Ein Staff ac Iechyd y Cyhoedd**Rhaglen Gymrodoriaeth EPIET**

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn safle hyfforddiant hirsefydlog ar gyfer **Rhaglen Hyfforddiant Ymyrraeth Epidemioleg Ewrop (EPIET)**. Nod y rhaglen hon, sy'n cael ei hariannu a'i rhedeg gan Ganolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop (ECDC) yn Stockholm, yw gwella gallu i ymateb ar gyfer ymchwilio maes a rheoli clefydau trosglwyddadwy effeithiol ar lefelau cenedlaethol a chymunedol, er mwyn bodloni bygythiadau iechyd y cyhoedd, yn ogystal â'r buddion rhyngwladol ehangach. Mae cymryd rhan yn yr hyfforddiant a'r addysgu yn cryfhau'r cysylltiadau rhwng Cymru a gwledydd eraill yr UE yn y maes hwn, gyda ECDC.

Mae'r rhaglen a'r staff sy'n cael eu hyfforddi ac sydd yn rhan o'r addysgu yn helpu i gryfhau gwyliadwriaeth a rheolaeth clefydau heintus a materion eraill sydd yn peri pryder yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd yn yr UE, ac yn ffurfio rhwydwaith Ewropeaidd o weithwyr iechyd y cyhoedd proffesiynol gan ddefnyddio safonau a dulliau, arfer da ac amcanion cyffredin, sydd yn gallu cyfrannu at a rhaeadru hyfforddiant i feithrin gallu yn yr UE a thu hwnt.

Mae hyn o fudd i Iechyd Cyhoeddus Cymru trwy:

- Gynyddu gwybodaeth, sgiliau a hyder
- Galluogi arfer da i gael ei weithredu yn y sefydliad

Mae hyn o fudd i bobl Cymru trwy:

- Wella sgiliau ac ymarfer yn Iechyd Cyhoeddus Cymru sydd yn cael effaith uniongyrchol ar ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i boblogaeth Cymru

Mae rhaglen gymrodoriaeth EPIET yn darparu hyfforddiant yn seiliedig ar gymhwysedd a phrofiad ymarferol ym maes epidemioleg ymyrraeth. Er fy mod eisoes wedi gweithio ym maes iechyd y cyhoedd yng Nghymru ers bron 20 mlynedd cyn dechrau cymrodoriaeth EPIET, roeddwn ond wedi gweithio mewn un maes penodol, heintiau ysbytai. Mae cymryd rhan yn EPIET wedi rhoi cyfle i mi weithio mewn llawer o feysydd gwahanol ac ehangach ym maes diogelu iechyd ac ar y cyd â chydweithwyr na fyddwn byth wedi gweithio gyda nhw fel arfer. Bydd y profiad yr wyf wedi ei gael a'r berthynas yr wyf wedi ei ddatblygu yn y sefydliad yn werthfawr iawn wrth fynd ymlaen, yn arbennig yn cynorthwyo achosion mewn lleoliad ysbyty. Yn ogystal ag ymestyn fy rhwydweithiau yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae cymrodoriaeth EPIET wedi rhoi mynediad i mi i rwydwaith o arbenigwyr diogelu iechyd ar draws Ewrop. Mae materion diogelu iechyd yn codi ar draws Ewrop ac mae cymrodoriaeth EPIET eraill ac alumni ar gael i gynghori a chefnogi mewn sefyllfaoedd sydd yn newydd.

Mari Morgan, Gwyddonydd Clinigol

Blwch 2.3. Gweithredu Buddion Rhannu a Dysgu Rhyngwladol

Gwasanaethau Lleihau Niwed ar gyfer Pobl sydd yn Chwistrellu Cyffuriau: Ymweliad Astudio â Denmarc

Mae'r Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau (SMP), Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr Is-adran Diogelu Iechyd yn cefnogi datblygu a gweithredu ymyriadau, polisi, arweiniad ac ymchwil lleihau niwed ledled Cymru. Ar y cyd â Llywodraeth Cymru, mae'r SMP wedi ymrwymo i gefnogi **APoSM a Chynllun Cyflenwi Camddefnyddio Sylweddau** i gasglu tystiolaeth trawsddiwylliannol er mwyn nodi arfer gorau, polisi ac ymyriadau yng Nghymru, yn cynnwys Canolfannau Chwistrellu dan Oruchwyliaeth Feddygol (MSIC). Arweiniodd aelodau o'r SMP, ynghyd â sefydliadau partner, ymweliad astudio i archwilio gwasanaethau lleihau niwed uwch a MSIC yn Copenhagen, Denmarc, 2016.

Roedd hyn yn cynnwys ymyriadau Lleihau Niwed arloesol fel Skyen a H17 MSIC. Rhoddodd yr ymweliad fewnwelediad gwerthfawr i'r strwythur presennol, diben a gwaith llywodraethu'r cyfleusterau yn Copenhagen ac roedd yn gyfle i rannu arfer gorau. Bydd hyn yn cefnogi'r Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau i fapio arfer gorau ac enghreifftiau arloesol o leihau niwed gan helpu i atal a lleihau clefydau trosglwyddadwy ac anhrosglwyddadwy, fel Feirysau a Gludir yn y Gwaed, a marwolaeth cyn pryd ymysg pobl sydd yn chwistrellu cyffuriau.

Mae hyn o fydd i Iechyd Cyhoeddus Cymru trwy:

- Alluogi staff i gael profiad uniongyrchol o ymyriadau lleihau niwed arloesol er mwyn cyfeirio datblygiad y sail dystiolaeth ar gyfer eu gweithredu yng Nghymru yn well

Mae hyn o fudd i bobl Cymru trwy:

- Roi'r sicrwydd i bobl Cymru bod tystiolaeth a phrofiad ar draws diwylliannau yn llywio polisi ac ymarfer yng Nghymru
- Sicrhau bod arfer gorau yn cael ei weithredu yng Nghymru er mwyn lleihau ac atal trosglwyddo feirysau a gludir yn y gwaed a gwenwyno trwy gyffuriau ar gyfer y rheiny sy'n defnyddio cyffuriau

Rhoddodd yr ymweliad astudio gyfle unigryw i arsylwi a chael gwybodaeth uniongyrchol am yr arfer gorau'n ymwneud â MSIC. Mae gallu cynyddu fy ymwybyddiaeth a'm dealltwriaeth o ymyriadau lleihau niwed newydd ac arloesol wedi chwarae rôl allweddol yn ymateb i heriau iechyd y cyhoedd newydd ac i ddatblygu mentrau. Mae'r profiad hwn wedi gwella fy nealltwriaeth o ystyriaethau allweddol a rhwystrau'n ymwneud â gweithredu MSIC, yn ogystal â phwysigrwydd dadansoddiadau gan randdeiliaid a mesurau gwerthuso cadarn. Bydd y wybodaeth a'r rhwydweithiau a gafwyd o'r ymweliad astudio yn cael eu defnyddio i gefnogi ein hymrwymiad parhaus i nodi arfer gorau, polisi ac ymyriadau lleihau niwed.

Gareth Morgan, Rheolwr Prosiect: Camddefnyddio Sylweddau / Lleihau Niwed

Ymweliad Astudio Rhyngwladol i Archwilio Ymagweddau Cymru tuag at Ddatblygu Cynaliadwy a Thegwch Iechyd

Daeth yr ymweliad astudio, a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn cydweithrediad â EuroHealthNet a Rhwydwaith Rhanbarthau dros Iechyd WHO, â 21 o gynadleddwyr ynghyd o 16 o wledydd. Nod yr ymweliad oedd rhoi cyfle i rannu arfer da ac ymagweddau ymarferol yn cysylltu iechyd a'r agenda datblygu cynaliadwy ar draws cyd-destunau strategol a gweithredol. Trwy enghreifftiau Cymru a gweithredu'r WFGA yn ogystal â phrofiadau gan ranbarthau Ewropeaidd eraill, fe wnaeth yr ymweliad astudio wella dealltwriaeth ac awgrymu ymagweddau posibl i droi Agenda 2030 a blaenoriaethau Ewropeaidd eraill yn weithredu effeithiol. Fe wnaeth cyfranogwyr ymweld â phrosiectau yn cynnwys Gweithredu dros Gaerau a Threlái (ACE), Fferm Ymddiriedolaeth Amelia a the Clink, yn ogystal â chlywed gan y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant, Sophie Howe a rhai o fabwysiadwyr cynnar WFGA. Cefnogwyd yr ymweliad gan Raglen Cyflogaeth ac Arloesi Cymdeithasol yr UE a WHO EURO.

Mae hyn o fydd i Iechyd Cyhoeddus Cymru trwy:

- Gryfhau ein rhwydweithiau a chynyddu ein heffaith yn rhyngwladol
- Codi proffil deddfwriaeth Cymru

Mae hyn o fudd i bobl Cymru trwy:

- Atgyfnerthu pwysigrwydd mentrau cynaliadwy sydd yn canolbwyntio ar iechyd y boblogaeth
- Denu dysgu ac arbenigedd rhyngwladol i Gymru

Blwch 2.4. Allgymorth Rhyngwladol Amlddisgyblaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru

Dinas Iach Abertawe

Fel rhan o Rwydwaith Dinasoedd Iach Ewrop WHO, caiff dynodiad a chyfranogiad Dinas Iach Abertawe ei gefnogi gan Dîm Lleol Iechyd y Cyhoeddus Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe; Dinas a Sir Abertawe; rhaglenni Dechrau'n Deg a Chymunedau yn Gyntaf; a chan Lywodraeth Cymru. Mae arweinyddiaeth wleidyddol a chymorth gweithredol uwch ar draws y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol wedi bod yn hanfodol yn symud y diwylliant tuag at ymagwedd gwbl integredig er mwyn mynd i'r afael â heriau trefol cynyddol trwy rannu profiadau a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Mae Dinasoedd Iach Abertawe yn gweithredu Iechyd Strategaeth Iechyd WHO 2020, gan droi ei werthoedd, ei amcanion strategol a'i flaenoriaethau ar gyfer gweithredu ar lefel leol. Enghraifft benodol yw **'Celluloid Heroes'**, adnodd 'cartref di-fwg' wedi ei ddatblygu'n gymunedol, yn gweithio mewn dwy ganolfan Dechrau'n Deg yn Abertawe ac yn hybu cartrefi di-fwg. Gyda chymorth Tîm Cymunedau yn Gyntaf Bonymaen, cafwyd mewnwelediad lleol ar smygu yn y cartref a derbynioldeb yr adnoddau presennol. Yn seiliedig ar hyn, cafodd adnodd DVD byr ei greu, yn cynnwys teulu lleol.

Uned Gwybodaeth ac Arolygiaeth Canser Cymru (WCISU)

Mae gan WCISU gyswllt cofrestru cancer hanesyddol gyda Sierra Leone, sydd bellach wedi ei adfywio ar ôl Ebola, trwy Gymdeithas Ryngwladol Cofrestrfeydd Canser WHO ac elusen Canolfan Canser Felindre. Mae'r trafodaethau am gefnogi cofrestrfa cancer yn seiliedig ar y boblogaeth ymhellach yn parhau. Mae WCISU hefyd yn gysylltiedig â gweithgorau sawl astudiaeth cancer ryngwladol epidemiolegol, fel **EUROCORE-5 a 6** a **Phartneriaeth Ryngwladol Meincnodi Canser (ICBP)** gyda gwledydd eraill y DU, Iwerddon a rhai gwledydd Nordig, Seland Newydd a rhannau o Awstralia a Chanada. Mae WCISU yn gweithio ar rannu arfer da a dysgu, cydgordio a gosod safonau ar gyfer cofrestru a dadansoddi fel aelodau llawn o Gymdeithas Cofrestrfeydd Canser y DU ac Iwerddon, Rhwydwaith Cofrestrfeydd Canser Ewrop a Chymdeithas Ryngwladol Cofrestrfeydd Canser; ac yn cydweithredu â Rhwydwaith Canser Cymru a Phrifysgol Århus, Denmarc ar fodel gwasanaeth Danaidd o ddiagnosis cynnar yng Nghymru.

Gweithgaredd Corfforol sy'n Gwella Iechyd (HEPA) yn Ewrop

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn aelod o rwydwaith HEPA a noddir gan WHO EURO er 2007, i ddechrau trwy Rwydwaith Gweithgaredd Corfforol a Maeth Cymru, Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru bellach, gan gadeirio gweithgor Hyrwyddo HEPA mewn Lleoliadau Gofal Iechyd. Cynhaliwyd **Cynhadledd HEPA 2012** yng Nghaerdydd ar gyfer dros 200 o gynadleddwyr o Ewrop a thu hwnt ar y thema **Gweithgaredd Corfforol a'r Amgylchedd Naturiol**. Roedd hwn yn gyfle gwerthfawr i ddangos y gwaith ar draws Cymru yn ogystal â dysgu o'r dystiolaeth a'r ymarfer a gyflwynwyd gan ein cydweithwyr rhyngwladol. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn arwain gwaith mapio o ymyriadau yn hybu gweithgaredd corfforol trwy ofal sylfaenol yn Ewrop a thu hwnt; gan ymchwilio i rôl gweithgaredd corfforol yn y cwricwlwm meddygol yn Ewrop; a chymryd rhan yn y grŵp arbenigol a ddatblygodd Strategaeth Gweithgaredd Corfforol Ewrop WHO.

Epidemioleg Ewropeaidd Cam-drin ac Esgeuluso Plant (Euro-CAN)

Mae Epidemioleg Ewropeaidd Cam-drin ac Esgeuluso Plant (Euro-CAN) a sefydlwyd yn 2015, yn gydweithrediaeth amlddisgyblaethol rhwng pedair gwlad Ewropeaidd: y DU (Diogelu, Iechyd Cyhoeddus Cymru), Iwerddon, Sweden a'r Iseldiroedd. Mae'n cynnal ymchwil i Gam-drin ac Esgeuluso plant ar hyn o bryd ac yn gweithredu **'Astudiaeth Vignette'** i werthuso amrywiadau mewn ymarfer clinigol mewn asesiadau ac ymyriadau diogelu plant.

Atodiad III

Y Cyd-destun Strategol

Nodau Datblygu Cynaliadwy
Agenda 2030 y CU

- Nod 1** Dod â thlodi ar bob ffurf i ben ym mhob man
- Nod 2** Dod â newyn i ben, creu diogelwch bwyd a maeth gwell a hybu amaethyddiaeth cynaliadwy
- Nod 3** Sicrhau bywydau iach a hybu llesiant i bawb o bob oed
- Nod 4** Sicrhau addysg gynhwysol a theg o ansawdd a hybu cyfleoedd dysgu gydol oes i bawb
- Nod 5** Cyflawni cydraddoldeb rhwng y ddau ryw a grymuso pob menyw a merch
- Nod 6** Sicrhau argaeledd a rheolaeth gynaliadwy dŵr a glanweithdra i bawb
- Nod 7** Sicrhau mynediad i ynni fforddiadwy, dibynadwy, cynaliadwy a modern i bawb
- Nod 8** Hybu twf economaidd parhaus, cynhwysol a chynaliadwy, cyflogaeth lawn a chynhyrchiol a gwaith gweddus i bawb
- Nod 9** Adeiladu isadeiledd cadarn, hybu diwydiannu cynhwysol a chynaliadwy a meithrin arloesi
- Nod 10** Lleihau anghydraddoldeb o fewn ac ymysg gwledydd
- Nod 11** Gwneud dinasoedd ac anheddau dynol yn gynhwysol, yn ddiogel, yn gadarn ac yn gynaliadwy
- Nod 12** Sicrhau patrymau bwyta a chynhyrchu cynaliadwy
- Nod 13** Gweithredu ar frys i frwydro yn erbyn newid hinsawdd a'i effeithiau
- Nod 14** Gwarchod a defnyddio cefnforoedd, moroedd ac adnoddau morol yn gynaliadwy ar gyfer datblygu cynaliadwy
- Nod 15** Amddiffyn, adfer a hybu defnydd cynaliadwy o ecosystemau daearol, rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy, brwydro yn erbyn anghyfaneddu, ac atal a gwrthdroi diraddio tir ac atal colli bioamrywiaeth
- Nod 16** Hybu cymdeithas heddychlon a chynhwysol ar gyfer datblygu cynaliadwy, rhoi mynediad i gyfiawnder i bawb a datblygu sefydliadau effeithiol, atebol a chynhwysol ar bob lefel
- Nod 17** Cryfhau'r dulliau o weithredu ac adfywio'r bartneriaeth fyd-eang ar gyfer datblygu cynaliadwy

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r
Dyfodol (Cymru)

Nod 1 – Cymru lewyrchus
Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatau i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.
Nod 2 – Cymru gydnerth
Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
Nod 3 – Cymru iachach
Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
Nod 4 – Cymru sy'n fwy cyfartal
Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
Nod 5 – Cymru o gymunedau cydlynus
Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
Nod 6 – Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfrnagoi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
Nod 7 – Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

Nodau Fframwaith Ansawdd ac Effaith Iechyd Cyhoeddus Cymru

- | | |
|--|-----------------------------|
| 1. Trawsnewid y Diwylliant | 2. Cryfhau'r Gweithlu |
| 3. Monitro Effaith | 4. Codi Safonau |
| 5. Mesur Gwelliant ac Ansawdd ein Gwaith | 6. Gweithio'n Gydweithredol |

Amcanion Strategol Ymchwil a Datblygu Iechyd Cyhoeddus Cymru

- 1. Datblygu a chefnogi gallu ymchwil Iechyd Cyhoeddus Cymru
- 2. Hwyluso a chreu gwybodaeth newydd
- 3. Cryfhau ymgysylltu cyhoeddus a chydweithrediadau
- 4. Cynyddu proffil ymchwil Iechyd Cyhoeddus Cymru trwy gyfathrebu'n helaeth gyda'n rhanddeiliaid a hybu troi ymchwil yn ymarfer

Cyfeiriadau

- i Koplan JP, Bond TC, Merson MH, et al. (2009). Towards a common definition of global health. *Lancet*. 373 (9679): 1993–5.
- ii White F, Nanan DJ (2008). International and Global Health. In Maxcy-Rosenau-Last. *Public Health and Preventive Medicine* (15th ed.). McGraw Hill. pp.1252–8.
- iii Lancet Commission on Planetary Health (2015). Safeguarding human health in the Anthropocene epoch: report of The Rockefeller Foundation. <http://www.thelancet.com/commissions/planetary-health> (Dyddiad y'i defnyddiwyd 11/02/2016)
- iv The American Veterinary Medical Association. One Health Initiative Task Force (2008). One Health: A New Professional Imperative. https://www.avma.org/KB/Resources/Reports/Documents/onehealth_final.pdf (Dyddiad y'i defnyddiwyd 11/01/2017)
- v International Bank for Reconstruction and Development / The World Bank (2016). Shock Waves. Managing the Impacts of Climate Change on Poverty. <https://openknowledge.worldbank.org/bitstream/handle/10986/22787/9781464806735.pdf> (Dyddiad y'i defnyddiwyd 20/01/2017)
- vi World Economic Forum (2016). The Fourth Industrial Revolution: what it means, how to respond. <https://www.weforum.org/agenda/2016/01/the-fourth-industrial-revolution-what-it-means-and-how-to-respond/> (Dyddiad y'i defnyddiwyd 20/01/2017)
- vii World Economic Forum (2017), The Global Risks Report 2017 - 12th Edition. <https://www.weforum.org/reports/the-global-risks-report-2017> (Dyddiad y'i defnyddiwyd 12/01/2017)
- viii Netherwood Sustainable Futures, PwC (2014). Generation 2050: Better long-term decision making. A resource for local government. <http://www.wlga.gov.uk/sustainable-development/generation-2050-better-long-term-decision-making-a-resource-for-local-government> (Dyddiad y'i defnyddiwyd 20/01/2017)
- ix Llywodraeth Cymru (2015). Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. <http://thewaleswewant.co.uk/about/well-being-future-generations-wales-act-2015> (Dyddiad y'i defnyddiwyd 11/02/2016)
- x United Nations Security Council. <http://www.un.org/en/sc/> (Dyddiad y'i defnyddiwyd 11/02/2016)
- xi Omran, A.R (2005. Cyhoeddiad cyntaf 1971), "The epidemiological transition: A theory of the epidemiology of population change" (PDF), *The Milbank Quarterly*, 83 (4): 731–57, doi:10.1111/j.1468-0009.2005.00398.x (Dyddiad y'i defnyddiwyd 11/02/2017)
- xii Global Burden of Disease Study 2013 Collaborators. Global, regional, and national incidence, prevalence, and years lived with disability for 301 acute and chronic diseases and injuries in 188 countries, 1990–2013: a systematic analysis for the Global Burden of Disease Study 2013. *The Lancet* (2015) Cyfrol 386, Rhifyn 9995, 743 - 800 [http://www.thelancet.com/journals/lancet/article/PIIS0140-6736\(15\)60692-4/fulltext](http://www.thelancet.com/journals/lancet/article/PIIS0140-6736(15)60692-4/fulltext) (Dyddiad y'i defnyddiwyd 11/02/2016)
- xiii WHO (2012). Environmental health inequalities in Europe: Assessment report. <http://www.euro.who.int/en/health-topics/environment-and-health/noise/publications/2012/environmental-health-inequalities-in-europe.-assessment-report> (Dyddiad y'i defnyddiwyd 11/02/2016)
- xiv Llywodraeth Cymru (2016). Adfer cydbwysedd i ofal iechyd: Gweithio mewn partneriaeth i leihau annhegwch cymdeithasol. Adroddiad Blyneddol Prif Swyddog Meddygol Cymru 2015-16. <http://gov.wales/topics/health/professionals/cmo/reports/?lang=cy> (Dyddiad y'i defnyddiwyd 12/01/2017)
- xviii Cenhedloedd Unedig (2015). Nodau Datblygu Cynaliadwy. <https://sustainabledevelopment.un.org/?menu=1300> (Dyddiad y'i defnyddiwyd 11/02/2016)
- xix Sefydliad Iechyd y Byd Ewrop (1986). Ottawa Charter for Health Promotion. http://www.euro.who.int/__data/assets/pdf_file/0004/129532/Ottawa_Charter.pdf?ua=1 (Dyddiad y'i defnyddiwyd 11/02/2016)
- xx Swyddfa Ranbarthol Ewrop WHO (2012). Health 2020: the European policy for health and well-being. <http://www.euro.who.int/en/health-topics/health-policy/health-2020-the-european-policy-for-health-and-well-being> (Dyddiad y'i defnyddiwyd 11/02/2016)
- xxi Cyswllt Cymru Lesotho Dolen Cymru (1985). <http://www.waleslesotholink.org/> (Dyddiad y'i defnyddiwyd 24/01/2017)
- xxii Llywodraeth Cymru (2016) Wales for Africa 10 Years 2006-2016 <http://gov.wales/docs/caecd/publications/161007-wales-for-africa-10-years-en.pdf> (Dyddiad y'i defnyddiwyd 24/01/2017)
- xxiii Llywodraeth Cymru (2013). Rhwydwaith Cyswllt Iechyd Cymru o Blaid Affrica. <http://gov.wales/topics/international/walesforafrica/health-links/?lang=cy> (Dyddiad y'i defnyddiwyd 20/10/2016)
- xxiv Llywodraeth Cymru (2015). Hub Cymru Affrica. <http://www.wcia.org.uk/hub/?module=render&file=hub/index.html> (Dyddiad y'i defnyddiwyd 20/10/2016)
- xxv Llywodraeth Cymru (2013) Adroddiad y Gymru a Garem: Adroddiad ar Ran Cenedlaethau'r Dyfodol <http://thewaleswewant.co.uk/wales-we-want-report> (Dyddiad y'i defnyddiwyd 24/01/2017)
- xxvi Llywodraeth Cymru (2012). Iechyd yng Nghymru a thu hwnt i'w ffiniau: fframwaith ar gyfer cysylltu'n rhyngwladol ym maes iechyd. <http://www.internationalhealth.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1100/120626frameworken.pdf> (Dyddiad y'i defnyddiwyd 20/10/2016)
- xxvii IHCC (2014). Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru. <http://www.internationalhealth.wales.nhs.uk/charter> (Dyddiad y'i defnyddiwyd 11/02/2016)
- xxviii IHCC (2015). Adroddiad Cynnydd 2003-2015. [http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PRIDDocs.nsf/7c21215d6d0c613e80256f490030c05a/94beefc98bef5aa480257ef9005ac87c/\\$FILE/PHW%20IHCC%20Progress%20Report%20E%20Web.pdf](http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PRIDDocs.nsf/7c21215d6d0c613e80256f490030c05a/94beefc98bef5aa480257ef9005ac87c/$FILE/PHW%20IHCC%20Progress%20Report%20E%20Web.pdf) (Dyddiad y'i defnyddiwyd 20/01/2017)
- xxix Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cymdeithas Ddysgedig Cymru, Prifysgol Aberystwyth (2016). A Pathfinder for Global Health: Potential Approaches in Wales, <https://www.learnedsociety.wales/wp-content/uploads/2016/06/Session-II-Wales-GH-Pathfinder.pdf> (Dyddiad y'i defnyddiwyd 20/01/2017)

Dolenni gwe y cyfeirir atynt yn yddogfen hon

Enw	URL
Cyswllt Iechyd Dolen Cymru	http://www.waleslesotholink.org/
Rhaglen 'Cymru o Blaid Affrica' Llywodraeth Cymru	http://gov.wales/topics/international/walesforafrica/?lang=en
Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru o Blaid Affrica	http://www.wfahln.org/
Hub Cymru Africa	http://www.hubcymru.org/hub/index.html
Cenedl Masnach Deg	http://fairtradewales.com/
'Y Gymru a Garem'	https://futuregenerations.wales/
Iechyd yng Nghymru a Thu Hwnt i'w Ffiniau: Fframwaith ar gyfer Cysylltu'n Rhyngwladol ym maes Iechyd	http://www.wales.nhs.uk/document/171015/info/
Canolfan Ryngwladol Cydlynw Iechyd (IHCC)	http://www.internationalhealth.wales.nhs.uk/home
Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru	http://ihcc.publichealthnetwork.cymru/files/5914/8467/3051/IHCC_Charter_for_IHP_Interactive_E.pdf
Catalogau Cyllid	http://www.internationalhealth.wales.nhs.uk/news/43434
Cyllid a Chydweithredu Ewropeaidd ar gyfer Iechyd a Llesiant yng Nghymru: Pontio'r Bwlch rhwng Cyllid Ewropeaidd ac Iechyd	http://ihcc.publichealthnetwork.cymru/en/events/european-funding-and-collaboration-health-and-wellbeing-wales-bridging-gap-between-european-funding-and-health/
Rhaglen yr UE ar gyfer Cyflogaeth ac Arloesi Cymdeithasol	http://ec.europa.eu/social/main.jsp?catId=1081
Cymdeithas Ddysgedig Cymru	https://www.learnedsociety.wales/
Adran Gwleidyddiaeth Rhyngwladol Aberystwyth	https://www.aber.ac.uk/en/interpol/
Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad	http://thecommonwealth.org/
Rhaglen Epidemioleg Ymyrraeth Ewrop	http://ecdc.europa.eu/en/epiet/Pages/HomeEpiet.aspx
Canolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop	http://ecdc.europa.eu/en/Pages/home.aspx
Uneg Gwybodaeth ac Arolygiaeth Canser Cymru	http://www.wcisu.wales.nhs.uk/home
Gweithgaredd Corfforol sy'n Gwella Iechyd	http://www.euro.who.int/en/health-topics/disease-prevention/physical-activity/activities/hepa-europe
Rhwydwaith Dinasoedd Iach WHO	http://www.euro.who.int/en/health-topics/environment-and-health/urban-health/activities/healthy-cities/who-european-healthy-cities-network
Dinas Iach Abertawe	http://www.swansea.gov.uk/healthcity
Epidemioleg Ewropeaidd Cam-drin ac Esgeuluso Plant	https://www.cardiff.ac.uk/research/explore/research-units/european-epidemiology-of-child-abuse-and-neglect-euro-can
Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod	http://www.publichealthwales.org/ACES
Partneriaeth Ryngwladol Masnach a Buddsoddi (TTIP)	http://ihcc.publichealthnetwork.cymru/en/events/trade-growth-equity-and-health-understanding-ttip-and-europe/
Datblygu Cynaliadwy a Phartneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru	http://ihcc.publichealthnetwork.cymru/en/events/sustainable-development-and-international-health-partnerships-wales/
Cynhadledd Rhwydweithiau a Phartneriaethau: Cymru'n Cydweithredu dros Iechyd Byd-eang	http://ihcc.publichealthnetwork.cymru/en/
Ffoduriaid a Cheiswyr Lloches: Goblygiadau Iechyd y Cyhoedd i Gymru	http://www.gpone.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1000/IHD_IHCC_Refugees%20Asylum%20Seekers%20briefing_141215_external_final%20(2).pdf
Agenda Datblygu Cynaliadwy 2030 y CU	https://sustainabledevelopment.un.org/post2015/transformingourworld
Y Gymru a Garem erbyn 2050	http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/140218-wales-we-want-en.pdf
Swyddfa Ewropeaidd Sefydliad Iechyd y Byd	http://www.euro.who.int/en/home
APoSM a Chynllun Cyflenwi Camddefnyddio Sylweddau	http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/substancemisuse/publications/dplan/?lang=en
Ymweliad Astudio Rhyngwladol i Archwilio Ymagweddau Cymru tuag at Ddatblygu Cynaliadwy a Thegwch Iechyd	http://ihcc.publichealthnetwork.cymru/en/events/wales-study-visit-sustainable-development-approaches-health-and-equity/
Rhaglen Hyfforddiant Epidemioleg Ymyrraeth Ewrop	http://ecdc.europa.eu/en/epiet/Pages/HomeEpiet.aspx
Pecyn Cymorth Diogelu Iechyd ar gyfer Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad	https://drive.google.com/file/d/0B8wr6920su0aVDJ65m1PbGE5Zlk/view
InterAction Council (IAC) Final Communiqué	http://interactioncouncil.org/
Uned Gwybodaeth ac Arolygiaeth Canser Cymru (WCISU)	http://www.wcisu.wales.nhs.uk/home
Gweithgaredd Corfforol sy'n Gwella Iechyd (HEPA) yn Ewrop	http://www.euro.who.int/en/health-topics/disease-prevention/physical-activity/activities/hepa-europe